Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil

DARPARIAETH HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR YSGOL AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU

Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil
Ysgol Addysg Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe
Heol Townhill, ABERTAWE SA2 0UT
Ffôn: 01792 482065 **Ffacs: 01792 482076**
E-bost: steve.gullick@smu.ac.uk
www.smu.ac.uk/schoolgovernor

Rhagfyr 2008

CYNNWYS

Rhagarweiniad	1
Unedau Cymorth i Lywodraethwyr Awdurdodau Lleol	2
Cynnwys Hyfforddiant	9
Presenoldeb	16
Cydweithio	23
Lleoliad	25
Amseru a Hyd	30
Hyfforddwyr	32
Monitro a Gwerthuso	35
Crynodeb o Gasgliadau	39
Crynodeb o Argymhellion	41
Atodiad	43

RHAGARWEINIAD

Cafodd yr astudiaeth hon ei chomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i chynnal gan Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil.

Ei phwrpas yw "cynnal ymchwil i mewn i'r hyfforddiant a ddarperir i lywodraethwyr gan awdurdodau lleol er mwyn hwyluso cydweithio, helpu i ledaenu arfer gorau a nodi gwelliannau."

Mae canfyddiadau'r astudiaeth wedi'u seilio ar arolwg holiadur (Atodiad 1) a anfonwyd at bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2008 a chyfweliadau dilynol byr dros y ffôn gyda nifer fach o Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr.

Mae'r holiadur a'r cyfweliadau wedi'u seilio ar yr hyfforddiant i lywodraethwyr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006-2007 a 2007-2008.

2 UNEDAU CYMORTH I LYWODRAETHWYR AWDURDODAU LLEOL

2.1 Dangosir nifer y llywodraethwyr ar draws awdurdodau lleol Cymru yn Nhabl 1: *Nifer y Llywodraethwyr a gefnogir gan Unedau Cymorth i Lywodraethwyr Awdurdodau Lleol.*

Tabl 1: Nifer y Llywodraethwyr a gefnogir gan Unedau Cymorth i Lywodraethwyr Awdurdodau Lleol.

Awdurdod Lleol	**Llywodraethwyr Cynradd**	**Llywodraethwyr Uwchradd**	**Cyfanswm**
Blaenau Gwent	371	109	480
Pen-y-bont ar Ogwr	845	173	1,018
Caerffili	958	273	1,231
Caerdydd	1371	358 + 81 AA	1,810
Sir Gâr	tua 1,600	230	tua 1,830
Ceredigion	873	111	984
Conwy	tua 750	143	tua 893
Sir Ddinbych	tua 723	tua 170	tua 893
Sir Y Fflint	975	240	1,215
Gwynedd	1484	252	1736
Merthyr Tudful	347	65	412
Sir Fynwy	523	90	613
Castell Nedd Port Talbot	903	202	1,105
Casnewydd	698	191	889
Sir Benfro	820	165	985
Powys	1,349	251	1,600
Rhondda Cynon Taf	1,470	339	1,809
Abertawe	1,165	257	1,422
Bro Morgannwg	804	182	986
Torfaen	401	128	529
Wrecsam	1,122	178	1,300
Ynys Môn	tua 600	tua 100	tua 700
Cyfansymiau	tua 20,152	tua 4288	tua 24440

Mae'r ffigyrau a ddangosir yn y tabl hwn hefyd yn cynnwys llywodraethwyr o ysgolion babanod ac ysgolion arbennig (e.e. unedau atgyfeirio disgyblion, ysgolion i ddisgyblion a chanddynt anawsterau dysgu difrifol, ac ati). Mae llywodraethwyr ysgolion babanod wedi'u cynnwys yn ffigyrau llywodraethwyr ysgolion cynradd; mae llywodraethwyr ysgolion arbennig wedi'u cynnwys yn ffigyrau llywodraethwyr ysgolion cynradd mewn rhai awdurdodau a llywodraethwyr ysgolion uwchradd mewn rhai eraill. Yn olaf, rhoddodd nifer fach o awdurdodau lleol frasamcanion.

2.2 Er gwaethaf y brasamcanion, mae'n amlwg o'r ffigyrau yn Nhabl 1 bod yna amrywiaeth mawr yn nifer y llywodraethwyr ar draws awdurdodau lleol Cymru, gan ymestyn o 412 ym Merthyr Tudful i tua 1,830 yn Sir Gâr. Wrth gwrs, byddai disgwyl yr amrywiaeth hwn o ystyried y gwahaniaethau mewn poblogaeth ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

2.3 Hefyd, mae yna amrywiaeth mawr yn lefelau staffio Unedau Cymorth i Lywodraethwyr yng Nghymru. Gweler Tabl 2 *Lefelau Staffio Unedau Cymorth i Lywodraethwyr Awdurdodau Lleol.* Yn y tabl hwn, mae awdurdodau lleol wedi'u grwpio'n gategorïau yn ôl eu poblogaethau llywodraethwyr er mwyn hwyluso'r gymhariaeth rhwng awdurdodau lleol sydd o faint tebyg.

2.4 Fel y mae'r tabl yn dangos, ychydig o gydberthynas sydd rwng maint poblogaethau llywodraethwyr awdurdodau lleol a nifer y staff sy'n gweithio ar Gymorth i Lywodraethwyr. Er enghraifft, mae lefelau staffio Unedau Cymorth i Lywodraethwyr Merthyr Tudful (412 llywodraethwr), Torfaen (529 llywodraethwr) a Sir Fynwy (613 llywodraethwr) yn cymharu'n ffafriol iawn ag awdurdodau a chanddynt boblogaethau llywodraethwyr mwy o lawer fel Abertawe (1,422 llywodraethwr) a Gwynedd (1,736 llywodraethwr).

2.5 Mae Tabl 3 *Nifer y Llywodraethwyr ym mhob awdurdod lleol a wasanaethir gan SCLl (naill ai'n amser llawn neu'n rhan amser)* yn dangos nifer y llywodraethwyr a wasanaethir gan Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr ar draws Cymru'n dangos yn glir iawn yr amrywiaeth sy'n bodoli ar draws awdurdodau lleol.

2.6 Fodd bynnag, rhaid dehongli'r wybodaeth a ddangosir yn y tabl hwn yn ofalus iawn o ganlyniad i nifer y newidynnau. Yn gyntaf, nid yw'r graff bloc yn gwahaniaethu rhwng nifer y Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr ym mhob awdurdod lleol sy'n rhan amser a'r rheiny sy'n amser llawn, (mae'r niferoedd yn cael eu dangos uwchben y gwahanol flociau).

2.7 Hefyd, mae gan ran fwyaf y staff mewn Unedau Cymorth i Lywodraethwyr ar draws awdurdodau lleol Cymru gyfrifoldebau eraill. Dim ond gan 9 awdurdod lleol y mae staff sy'n gwbl gyfrifol am gefnogi llywodraethwyr, ac i'r eithaf arall, mewn 4 awdurdod lleol, mae holl staff yr Unedau Cymorth i Lywodraethwyr yn nodi bod eu prif gyfrifoldeb y tu allan i gymorth llywodraethwyr. (Gweler Tabl 2.)

2.8 Er bod yna amrywiaethau mawr yn lefelau staffio Unedau Cymorth i Lywodraethwyr ar draws awdurdodau lleol Cymru, rhaid cofio nad yw'r gwasanaeth clercio cyfarfodydd cyrff llywodraethu, sy'n ddyletswydd lafurus, yn cael ei ddarparu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Felly, rhaid ystyried p'un ai a yw awdurdod lleol yn cynnig gwasanaeth clercio i'w holl gyrff llywodraethu neu beidio, yn ogystal â

phoblogaeth llywodraethwyr, wrth gymharu lefelau staffio Unedau Cymorth i Lywodraethwyr. (Gweler Tabl 4 *Awdurdodau Lleol sy'n darparu gwasanaethau clercio i ysgolion.)*

Tabl 2: Lefelau staffio Unedau Cymorth i Lywodraethwyr AALl

Nifer y Llywodraethwyr	**Awdurdod Lleol**	**Nifer y staff amser llawn**	**Nifer y staff rhan-amser**	**Staff sy'n gwbl gyfrifol am gymorth llywodraethwyr**	**Staff a chanddynt gyfrifoldebau eraill ond cymorth i lywodraethwyr yw eu prif rôl**	**Staff â pheth cyfrifoldeb am gymorth llywodraethwyr, ond nid dyna yw eu prif rôl**
400 – 700	Merthyr Tudful	1	5		3	3
	Blaenau Gwent	1	1		1	1
	Torfaen	2	2	2	1	1
	Sir Fynwy	3			1	2
	Ynys Môn	1			1	
701 – 1,000	Casnewydd	5	6	4	1	6
	Conwy	4				4
	Sir Ddinbych	2			1	1
	Ceredigion	2	4	1	1	4
	Sir Benfro	3	1		4	
	Bro Morgannwg	2			2	
1,001 – 1,300	Pen-y-bont ar Ogwr	1	1	1		1
	Castell Nedd Port Talbot	4				4
	Sir Y Fflint	2				2
	Caerffili	5	3	8		
	Wrecsam		1			1
1,301 – 1,600	Abertawe	2			1	1
	Powys	1	1	1		1
1,601+	Gwynedd		2			2
	Rhondda Cynon Taf	11		8	3	
	Sir Gâr	2	2		2	2
	Caerdydd	6	2	7	1	

Tabl 3: Nifer y Llywodraethwyr ym mhob awdurdod lleol a wasanaethir gan S.C.Ll
(naill ai'n amser llawn neu'n rhan amser)



Mae'r ffigyrau **coch** yn dangos aelodau amser llawn Unedau Cymorth i Lywodraethwyr.
Mae'r ffigyrau **gwyrdd** yn dangos aelodau rhan amser Unedau Cymorth i Lywodraethwyr.

Tabl 4: Awdurdodau Lleol sy'n darparu Gwasanaeth Clercio i Ysgolion

Awdurdod Lleol	**Gwasanaeth Clercio'n cael ei gynnig**	**Gwasanaeth Clercio ddim yn cael ei gynnig**
Blaenau Gwent	X	
Pen-y-bont ar Ogwr	X	
Caerffili	X	
Caerdydd	X	
Sir Gâr		X
Ceredigion	X	
Conwy		X
Sir Ddinbych		X
Sir Y Fflint		X
Gwynedd		X
Merthyr Tudful	X	
Sir Fynwy	X	
Castell Nedd Port Talbot		X
Casnewydd	X	
Sir Benfro	X	
Powys		X
Rhondda Cynon Taf	X	
Abertawe		X
Bro Morgannwg		X
Torfaen	X	
Wrecsam		X
Ynys Môn		X

2.9 Mae'r ffaith mai dim ond un o ddyletswyddau Unedau Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol yw hyfforddi llywodraethwyr yn cael ei ddangos gan yr wybodaeth a geir yn Nhabl 5 *Canran amser Unedau Cymorth i Lywodraethwyr a roddir i Hyfforddi Llywodraethwyr.* Gofynnwyd i Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr "Pa ganran o amser eich Uned Cymorth i Lywodraethwyr sy'n cael ei dreulio'n hyfforddi llywodraethwyr? (Dylai hyn gynnwys trefnu sesiynau unigol, mynychu sesiynau, cynnal sesiynau, dadansoddi data ac ati. A fyddwch gystal â pheidio â chynnwys hyfforddiant 'anffurfiol' fel rhoi cyngor i gyrff llywodraethu neu lywodraethwyr unigol ar faterion cyfreithiol neu drefniadol.)"

Tabl 5 Canran amser Unedau Cymorth i Lywodraethwyr a roddir i HyfforddiLlywodraethwyr

Awdurdod Lleol		Dros 80%	70-79%	60-69%	50-59%	40-49%	30-39%	20-29%	Llai na 20%
Blaenau Gwent	A								X
Pen-y-bont ar Ogwr	B							X	
Caerffili	C							X	
Caerdydd	D						X		
Sir Gâr	E				X				
Ceredigion	F						X		
Conwy	G						X		
Sir Ddinbych	H					X			
Sir Y Fflint	I							X	
Gwynedd	J								X
Merthyr Tudful	K								X
Sir Fynwy	L								X
Castell Nedd Port Talbot	M								X
Casnewydd	N							X	
Sir Benfro	O							X	
Powys	P				X				
Rhondda Cynon Taf	Q							X	
Abertawe	R							X	
Bro Morgannwg	S							X	
Torfaen	T					X			
Wrecsam	U								X
Ynys Môn	V					X			
	Cyfansymiau	0	0	0	2	3	2	7	6

Gweler Tabl 15 am yr hyfforddiant a ddarperir gan swyddogion awdurdod lleol eraill.

2.10 Ac eithrio dau awdurdod lleol, nid yw'r un Uned Cymorth i Lywodraethwyr yng Nghymru'n treulio mwy na 50% o'i hamser ar hyfforddi llywodraethwyr. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd yn ganiataol o'r ffigyrau hyn bod yr holl awdurdodau lleol

hyn yn credu nad yw hyfforddi llywodraethwyr yn bwysig: o'r 8 Uned Cymorth i Lywodraethwyr sy'n rhoi dros 29% o'u hamser i hyfforddi llywodraethwyr, dim ond 3 sy'n darparu gwasanaeth clercio ar gyfer eu hysgolion. Fel y nodwyd yn 2.6, mae clercio cyrff llywodraethu'n ddyletswydd sy'n cymryd llawer o amser felly mae'n debygol iawn y bydd canran llai o amser awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaeth hwn yn cael ei dreulio ar hyfforddi llywodraethwyr, er efallai bod yr amser gwirioneddol y maent yn ei dreulio ar hyfforddi llywodraethwyr gymaint ag (neu hyd yn oed fwy nag) awdurdodau nad ydynt yn darparu'r gwasanaeth clercio.

2.11 Casgliadau

Mae yna amrywiaeth fawr ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru o ran maint Unedau Cymorth i Lywodraethwyr, i ba raddau y mae gan staff sy'n gyfrifol am gefnogi llywodraethwyr gyfrifoldebau eraill a darpariaeth gwasanaeth clercio i gyrff llywodraethu gan staff cymorth i lywodraethwyr awdurdodau lleol. At hyn, ychydig o gydberthynas sydd yna rhwng maint awdurdod lleol a main Unedau Cymorth i Lywodraethwyr neu faint awdurdod lleol a darpariaeth gwasanaeth clercio gan Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr. Fodd bynnag, gellir gweld nad yw'r un awdurdod lleol yn y Gogledd yn cynnig gwasanaeth clercio i'w cyrff llywodraethu ac mae rhan fwyaf yr awdurdodau lleol yn y De yn cynnig gwasanaeth o'r fath (ac eithrio Sir Gâr, Castell Nedd Port Talbot, Abertawe a Bro Morgannwg).

2.12 Argymhellion

Argymhellir bod awdurdodau lleol yn ystyried maint eu Hunedau Cymorth i Lywodraethwyr mewn perthynas â'u rolau ac, yn arbennig, y posibilrwydd o roi pennaeth ar Unedau Cymorth Llywodraethwr, neu gynnwys aelod o staff y mae cefnogi llywodraethwyr yn unig gyfrifoldeb iddynt.

3 CYNNWYS HYFFORDDIANT

3.1 Mae'n amlwg o Dabl 6 *Pynciau a gwmpaswyd mewn Hyfforddiant Llywodraethwyr ym mlynyddoedd Academaidd 2006-2007 a 2007-2008* a Thabl 7 *Pynciau a gwmpaswyd mewn Hyfforddiant Llywodraethwyr yn y Flwyddyn Academaidd 2007-2008* yn unig, bod yna gyfres eang iawn o bynciau'n cael eu darparu ar gyfer hyfforddiant llywodraethwyr gan awdurdodau lleol ar draws Cymru.

3.2 Efallai ei fod yn demtasiwn cymryd yn ganiataol bod cyrsiau a gynigwyd am ddwy flynedd yn cwmpasu pynciau oedd yn cael eu hystyried yn bwysicach neu'n fwy perthnasol na chyrsiau a gynigwyd am un flwyddyn yn unig. Fodd bynnag, byddai'n annoeth ystyried bod hyn o reidrwydd yn wir. Yn gyntaf, efallai bod y cyrsiau a gynigiwyd yn 2007-2008 yn ymddangos am y tro cyntaf mewn cyfres o ymddangosiadau; yn ail, os bu trosiant llywodraethwyr yn isel rhwng 2006 a 2008 mewn awdurdod lleol penodol, efallai na fu'n rhaid cwmpasu'r un pwnc (pynciau) yn ystod sesiynau hyfforddi am ddwy flynedd yn olynol; yn drydydd, lle bo nifer fawr o Gadeiryddion a/neu glercod yn parhau yn y swydd mewn awdurdod lleol penodol efallai nad yw'n ddichonadwy cynnal sesiwn Cadeirydd neu glerc am y ddwy flynedd; yn olaf, lle bo gwasanaeth clercio'n cael ei ddarparu i gyrff llywodraethu gan awdurdod lleol, efallai y teimlir nad yw sesiynau clercio yn angenrheidiol.

3.3 Er gwaethaf y cafeatau uchod, efallai y byddai'n rhesymol disgwyl i fwyafrif y 22 o bynciau a restrwyd yn Nhablau 6 a 7 gael eu cwmpasu gan yr holl awdurdodau lleol ar draws Cymru rhwng 2006 a 2008. Caiff dadansoddiad y ffigyrau ei ddangos yn Nhabl 8, *Nifer y pynciau a restrwyd a gwmpaswyd mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr awdurdodau lleol 2006-2008* ac mae'n glir bod mwyafrif yr awdurdodau lleol (17) yn cwmpasu mwy na hanner y pynciau a restrwyd yn y sesiynau hyfforddi y maent yn eu darparu i lywodraethwyr, yr isaf yw 7 a'r cyfartaledd yw 14.

Tabl 6 Pynciau a gwmpaswyd mewn Hyfforddiant Llywodraethwyr ym Mlynyddoedd Academaidd 2006- 2007 a 2007-2008

Pynciau	Awdurdod Lleol																							Cyfansymiau
	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V		
Hyfforddiant i Gadeiryddion			X	X	X			X					X		X		X						7	5
Hyfforddiant i Glercod	X	X		X	X	X		X	X				X		X			X	X				12	2
Ymsefydlu Llywodraethwyr Newydd	X	X	X	X	X	X	X	X		X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	21	5
Materion Anghenion Addysgol Arbennig	X	X	X	X	X			X	X	X	X	X	X	X			X	X	X	X	X	X	16	5
Bwlio	X			X	X			X					X						X				7	2
Amddiffyn Plant		X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X		X	X	X	X	X	X	X	X	18	6
Materion Cylchlythyron			X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X		X	X	X	X	X	X	18	7
Monitro Cyllid/Cyllideb		X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	X	18	6
Ymdrin â Chwynion			X	X	X			X			X						X	X	X	X	X	X	7	2
Materion Iechyd a Diogelwch		X		X	X			X	X	X			X				X	X	X	X	X	X	12	5
Cyfweld a Phenodi			X		X			X			X	X	X	X			X	X					8	2
Monitro a Gwerthuso		X	X	X	X			X		X	X	X	X		X		X	X	X	X	X	X	11	5
Rheoli Perfformiad			X	X	X						X	X	X	X			X	X	X	X	X	X	11	5
Disgyblu Disgyblion				X	X			X			X			X			X	X	X	X	X	X	8	2
Disgyblu Staff			X	X	X			X					X	X			X	X					7	2
Cynllunio Strategol			X					X			X						X	X	X	X	X	X	6	2
Gosod Targedau	X							X				X		X			X		X	X	X	X	6	2
Hyfforddiant i Ddisgybl-Lywodraethwyr Cyswllt															X								2	1
Pontio rhwng Cyfnodau Allweddol		X	X	X	X			X											X				5	2
Deall Data			X	X	X			X				X			X				X				5	2
Gweithio gyda Rhieni		X														X							2	1

Tabl 7 Pynciau a gwmpaswyd mewn Hyfforddiant Llywodraethwyr yn y Flwyddyn Academaidd 2007-2008

Pynciau		A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	Cyfansymiau
	Cyfansymiau	6	5	1	5	4	3	3	3	7	5	5	5	8	5	6	5	7	1	5	5	4	5	
Awdurdod Lleol																								
	Blaenau Gwent																							4
	Pen-y-bont ar Ogwr																							7
	Caerffili																							2
	Caerdydd																							0
	Sir Gâr																							1
	Sir Ddinbych																							8
	Conway																							6
	Ceredigion																							8
	Sir Fynwy																							1
	Merthyr Tudful																							2
	Gwynedd																							10
	Sir Y Fflint																							10
	Casnewydd																							5
	Castell Nedd Port Talbot																							3
	Sir Benfro																							7
	Powys																							5
	Rhondda Cynon Taf																							0
	Abertawe																							0
	Bro Morgannwg																							2
	Torfaen																							8
	Wrecsam																							4
	Ynys Môn																							5
	Hyfforddiant i Gadeiryddion																							
	Hyfforddiant i Glercod																							
	Ymsefydlu ar gyfer Llywodraethwyr Newydd																							
	Materion Anghenion Addysgol Arbennig																							
	Bwlio																							
	Amddiffyn Plant																							
	Materion Cwricwlar																							
	Monitro Cyllid/Cyllideb																							
	Ymdrin â Chwynion																							
	Materion lechyd a Diogelwch																							
	Cyfweld a Phenodi																							
	Monitro a Gwerthuso																							
	Rheoli Perfformiad																							
	Disgyblu Disgyblion																							
	Disgyblu Staff																							
	Cynllunio Strategol																							
	Gosod Targedau																							
	Hyfforddiant i Ddisgybl-Lywodraethwyr Cyswllt																							
	Pontio rhwng Cyfnodau Allweddol																							
	Deall Data																							
	Gweithio gyda Rhieni																							

Tabl 8 Nifer y Pynciau Rhestredig a gwmpaswyd mewn Sesiynau Hyfforddi Awdurdodau Lleol 2006-2008

Nifer y Pynciau Rhestredig a Gwmpaswyd	Nifer yr Awdurdodau Lleol oedd yn cwmpasu pynciau rhestredig
22	
21	
20	
19	1
18	2
17	2
16	4
15	2
14	1
13	3
12	2
11	
10	2
9	1
8	
7	2*
6	
5	
4	
3	
2	
1	

***** Mae un o'r awdurdodau lleol hyn yn darparu pob sesiwn mewn tri lleoliad.

3.4 Mae'r pynciau sy'n fwyaf poblogaidd neu'n cael eu cwmpasu amlaf mewn sesiynau hyfforddi awdurdodau lleol rhwng 2006 a 2008 yn cael eu dangos yn Nhabl 9: *Y pynciau hyfforddi llywodraethwyr mwyaf poblogaidd a gwmpaswyd rhwng 2006 a 2008 fel y diffinnir gan eu hymddangosiad mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr awdurdodau lleol*

Tabl 9 Y pynciau hyfforddi llywodraethwyr mwyaf poblogaidd a gwmpaswyd rhwng 2006 a 2008 fel y diffinnir gan eu hymddangosiad mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr awdurdodau lleol

Pwnc	**Nifer yr Awdurdodau Lleol a gwmpasodd y pwnc hwn mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr 2006-2008**
Ymsefydlu Llywodraethwyr Newydd	22
Amddiffyn Plant	21
Materion Anghenion Addysgol Arbennig	20
Materion Cwricwlar	20
Monitro Cyllid/Cyllideb	20
Rheoli Perfformiad	18
Hyfforddi Clercod	16
Materion Iechyd a Diogelwch	16
Monitro a Gwerthuso	16
Ymdrin â Chwynion	14
Hyfforddiant i Gadeiryddion	13
Cyfweld a Phenodi	13
Disgyblu Disgyblion	13
Disgyblu Staff	12
Gosod Targedau	12
Bwlio	10
Cynllunio Strategol	10
Pontio rhwng Cyfnodau Allweddol	10
Deall data	10
Gweithio gyda rhieni	4
Hyfforddiant i Ddisgybl-lywodraethwr Cyswllt	3

3.5 Yn ogystal â'r rhestr o bynciau hyfforddi a gwmpesir yn Nhabl 9, dywedodd pum awdurdod lleol eu bod wedi cynnal sesiynau hyfforddi i lywodraethwyr ar faterion cyfreithiol rhwng 2006 a 2008. Roedd y cyntaf wedi cynnal sesiwn ar wahaniaethu ar sail anabledd, yr ail ar gyfraith cyflogaeth, y trydydd ar ryddid gwybodaeth a diogelu data, y pedwerydd ar wahaniaethu ar sail oed - y ddeddfwriaeth newydd, a'r pumed ar lywodraethwyr a'r gyfraith.

3.6 Darparodd un deg pump o awdurdodau lleol eraill hyfforddiant ar bynciau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr a ddarparwyd neu y gellid eu diffinio fel "materion cyfreithiol". Darparodd un awdurdod lleol sesiwn hyfforddi ar un "pwnc arall" a darparodd ddau awdurdod lleol sesiynau hyfforddi ar 10 "pwnc arall". Mae'r deuddeg sy'n weddill yn darparu hyfforddiant ar rwng tri ac wyth "pwnc arall".

3.7 Cafodd ystod eithaf mawr o "bynciau eraill" eu cwmpasu, ond y rhai mwyaf poblogaidd oedd Ysgolion Bro (5 awdurdod lleol), datblygu cynaliadwy (5 awdurdod lleol), a bwyta'n iach (4 awdurdod lleol).

3.8 Casgliadau

Mae'n glir bod awdurdodau lleol ar draws Cymru yn gwneud eu gorau i baratoi llywodraethwyr newydd ar gyfer eu rôl gan fod pob un ohonynt yn darparu hyfforddiant ymsefydlu i lywodraethwyr newydd. Hefyd, roedd dros 65% o awdurdodau lleol (14+) yn cynnig hyfforddiant ar faterion penodol iawn fel amddiffyn plant, rheoli perfformiad ac ymdrin â chwynion (Gweler Tabl 9). Fodd bynnag, o'r ddau ddeg un o bynciau a restrwyd yn Nhabl 9 (ac y gellir ystyried yw'r rhai mwyaf gwerthfawr neu bwysig i lywodraethwyr feddu ar elfen o wybodaeth neu ddealltwriaeth yn eu cylch), dim ond 10 oedd yn cael eu cwmpasu gan 14 (65%) neu fwy o awdurdodau lleol Cymru. Mae hyn yn peri consyrn arbennig lle bo'r 11 o bynciau a gwmpaswyd gan lai nag 14 o awdurdod lleol yn cynnwys yr hyn y gellir eu galw'n rolau "craidd" llywodraethwyr, sef gosod targedau (hyfforddiant wedi'i ddarparu gan 12 o awdurdodau lleol), cynllunio strategol (hyfforddiant wedi'i ddarparu gan 10 awdurdod lleol), ac efallai'n bwysicaf oll, gan fod hwn yn tanategu llawer o waith llywodraethwyr, deall data (10 awdurdod lleol).

Nodwyd y sefyllfa yma yng nghyhoeddiad Estyn "Ansawdd Hyfforddiant a Chymorth a ddarperir gan AALl i Lywodraethwyr Ysgolion" (2003) a nododd "nad yw nifer o AALl yn talu digon o sylw i rai o'r agweddau hyn ar wella ysgol" mewn perthynas â gosod targedau 'r defnydd o ddata perfformiad ysgol.

Yn debyg, mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Ganolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil o'r enw " Mewnbwn Cyrff Llywodraethu i Welliant Ysgol" (Medi 2003), darganfu bod Penaethiaid yn dweud bod mewnbwn cyrff llywodraethu i "welliant ysgol" (yn ôl diffiniad Estyn) yn isel ym meysydd monitro a gwerthuso, gosod targedau a chynllunio strategol.

Ymddengys bod y diffyg hyfforddiant hwn yn rôl "craidd" llywodraethu, sef gosod targedau, cynllunio strategol, deall data ac, i raddau llai, monitro a gwerthuso (darparwyd hyfforddiant gan 16 o awdurdodau lleol) yn cael ei adlewyrchu yn Lloegr. Yn "Understanding School Leadership" (Cyhoeddiadau Sage, 2004) dywed Earley a Weindling "Mae llawer o hyfforddiant i lywodraethwyr yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei alw'n 'nytiau a bolltau' llywodraethu - materion fel cyfrifoldebau cyfreithiol llywodraethwyr, rheoli cyllideb ac ati. Fe all materion ehangach mwy sylfaenol ymrwymiad llywodraethwyr gael llai o sylw. Fel y nododd un o'r llywodraethwyr : 'Mae angen i hyfforddiant ymwneud yn llai â

gweithdrefnau, polisïau a chanllawiau a mwy â darlunio, arweinyddiaeth, gwaith tîm effeithiol, cymhelliant a diwylliant'."

3.9 Argymhellion

Mae nifer y gwahanol bynciau a gwmpesir mewn sesiynau hyfforddi'n amrywio'n eang ar draws awdurdodau lleol Cymru. Heb os, mae'n rhaid bod hyn yn cael ei effeithio gan wahanol lefelau staffio ac adnoddau yn ogystal â faint y mae llywodraethwyr yn manteisio ar hyfforddiant ar draws awdurdodau lleol. Felly, argymhellir y dylai awdurdodau lleol sy'n gymdogion i'w gilydd ystyried cydweithio wrth ddarparu sesiynau hyfforddi ar y cyd i lywodraethwyr er mwyn cronni adnoddau ac arbenigedd a lleihau dyblygiad.

Cynllunio strategol, gosod targedau, deall data a monitro a gwerthuso yw swyddogaethau pwysicaf corff llywodraethu, ond eto i gyd dim ond 65% o awdurdodau lleol Cymru sy'n darparu hyfforddiant ar gyfer y tri cyntaf o'r rhain. Felly, argymhellir bod awdurdodau lleol naill ai'n darparu hyfforddiant penodol yn y meysydd hyn yn unigol neu ar y cyd. At hyn, argymhellir bod rhaglen hyfforddi genedlaethol mewn deall data'n cael ei chynhyrchu i helpu awdurdodau lleol i ddarparu'r hyfforddiant hwn ac i ychwanegu at y rhaglenni hyfforddi cenedlaethol a gynhyrchir yn barod mewn gosod targedau, cynllunio strategol a monitro a gwerthuso.

4 PRESENOLDEB

4.1 Dywedodd dau ddeg un o awdurdodau lleol bod y nifer cyffredinol y bobl oedd yn mynychu sesiynau hyfforddi, rhwng 2006 a 2008, yn uwch ymhlith llywodraethwyr Ysgolion Cynradd nag Uwchradd yng Nghymru, er y dywedodd un ymatebwr bod hyn yn wir oherwydd bod llywodraethwyr cynradd yn "fwy gweithredol yn eu rôl" tra nododd un arall bod "lefel presenoldeb llywodraethwyr uwchradd yn wael yn y rhan fwyaf o'n cyrsiau."

4.2 Mewn deuddeg awdurdod lleol, bu cyrsiau oedd yn eithriad i'r norm a bu lefel da o lywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd yn bresennol. Roedd cynnwys y cyrsiau hyn yn amrywio o reoli cyllideb i wrth-fwlio, er bod Ymsefydlu wedi'i grybwyll gan ddau awdurdod lleol ac amddiffyn plant gan dri.

4.3 Dywedodd saith o awdurdodau lleol eu bod wedi cynnal cyrsiau oedd wedi bod yn arbennig o boblogaidd ymhlith llywodraethwyr Cynradd yn unig. Efallai nad yw'n syndod, bod y Cyfnod Sylfaen wedi ei grybwyll gan chwech o'r saith, y tri phwnc arall a amlygwyd yn rhai arbennig o boblogaidd oedd ysgolion bro (1 awdurdod lleol), gwahardd disgyblion (1 awdurdod lleol) a threfniadaeth ysgol (1 awdurdod lleol).

4.4 Dim ond un awdurdod lleol a nododd y bu iddynt gynnal sesiwn hyfforddi i Lywodraethwyr Uwchradd a chanddi bresenoldeb eithriadol o dda, ac roedd hon yn ymwneud ag ymdrin â chwynion.

4.5 Rhoddwyd amrywiaeth o resymau dros bresenoldeb eithriadol o uchel y cyrsiau hyn. Dywedodd dau ymatebwr nad oedd y pwnc a gynigiwyd wedi cael ei gynnig ers nifer o flynyddoedd, ac o ganlyniad bod llywodraethwyr newydd yn teimlo'r angen am hyfforddiant yn y maes penodol hwnnw. Hefyd, gwnaeth dau ymatebwr sylwadau ar y ffaith bod siaradwyr gwadd yn cymryd yr hyfforddiant tra teimlodd nifer fod pynciau hyfforddiant penodol ("pynciau poeth" fel y'u gelwir weithiau) yn cael eu hystyried yn arbennig o berthnasol i lywodraethwyr fel y Cyfnod Sylfaen, amddiffyn plant (maes emosiynol sydd i'w weld yn denu llywodraethwyr gan eu bod eisiau sicrhau bod eu cyrff llywodraethu'n gwneud pethau'n iawn ac o fewn y gyfraith") ac Ymsefydlu. Yn ddiddorol, Teimlodd un ymatebwr mai'r rheswm dros boblogrwydd pwnc oedd "oherwydd (ei fod) yn cael ei ddarparu ar gyfer ysgolion unigol yn bennaf" ac un arall oherwydd bod hyfforddiant wedi'i ddarparu i glystyrau o gyrff llywodraethu.

4.6 Rhwng 2006 a 2008, dywedodd wyth o awdurdodau lleol eu bod wedi cynnal sesiynau hyfforddi lle bu presenoldeb llywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd yn eithriad i'r norm ac yn arbennig o wael. Roedd y pynciau yn y sesiynau hyn yn amrywio o gyllid a bwyta'n iach i reoli ynni a materion disgyblaeth. Teimlodd un ymatebwr bod presenoldeb gwael mewn sesiwn ar gynllunio pontio oherwydd "nad oedd Llywodraethwyr i weld yn deall pwysigrwydd cynllunio pontio", tra soniodd un arall am "ymrwymiad llywodraethwyr i deithio i ganolfannau mewn ardaloedd gwledig."

4.7 Hefyd, dywedodd tri o'r wyth awdurdod lleol a ddywedodd bod presenoldeb yn arbennig o isel mewn sesiynau penodol ar gyfer llywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd y bu presenoldeb eithriadol o isel gan Lywodraethwyr Uwchradd yn unig. Ym mhob un o'r tri achos, y pwnc oedd yn cael ei gwmpasu oedd llwybrau 14-19. Yr unig reswm posibl a awgrymwyd oedd "mae yna lawer o gyfarfodydd is-bwyllgorau y mae'n rhaid iddynt eu mynychu - cael yr amser yw'r peth!"

4.8 Mae'n glir, ymhob awdurdod lleol, nad yw rhai cyrff llywodraethu'n cael eu cynrychioli gystal mewn sesiynau hyfforddi ag eraill. Mewn gwirionedd, dim ond dau ymatebwr a ddywedodd bod corff llywodraethu pob ysgol yn eu hawdurdod lleol wedi'i gynrychioli gystal â'i gilydd yn rhan fwyaf y sesiynau hyfforddi llywodraethwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

4.9 Mae'r rhesymau y mae Swyddogion Cymorth i Lywodraethwr yn eu rhoi dros y gynrychiolaeth wael yn arbennig o ddiddorol.

4.10 Gellid galw'r math cyntaf o reswm a roddwyd gan ddau ymatebwr yn **rhesymegol**. Cyfeiriodd y ddau ymatebwr yma at y ffordd y gellid effeithio ar nifer y bobl oedd yn mynychu hyfforddiant gan gyfnodau llywodraethwyr yn y swydd, h.y. nid yw llywodraethwyr sy'n dod i ddiwedd eu cyfnod pedair blynedd yn y swydd yn gweld fawr o bwrpas mynychu hyfforddiant. Hefyd, nododd un ymatebwr bod "cynnal cyrsiau tebyg ddwy flynedd yn olynol (yn golygu) nad yw llywodraethwyr yn mynychu dwywaith." Fodd bynnag, er bod y rhesymau'n rhesymegol wrth geisio esbonio presenoldeb gwael yn gyffredinol, nid ydynt yn esbonio gwahaniaethau ym mhresenoldeb cyrff llywodraethu ysgolion penodol.

4.11 Efallai bod rhesymau sy'n gysylltiedig â **phellter** yn fwy perthnasol wrth esbonio'r gwahaniaeth ym mhresenoldeb llywodraethwyr o wahanol ysgolion yn yr un awdurdod. Awgrymodd un ymatebwr y gall "lleoliadau sydd gan amlaf yn ganolog atal llywodraethwyr rhag mynd yno o'r cyrion", barn a gefnogir gan ddau ymatebwr arall - "mae teithio mewn ardaloedd gwledig (yn) ffactor", ac "mae rhai ysgolion yn wledig iawn ac mae cyrraedd unrhyw leoliad yn y sir yn siwrnai fawr".

4.12 Yn ddiddorol, mae'r ddau awdurdod lleol a ddywedodd bod cyrff llywodraethu pob ysgol wedi'u cynrychioli gystal â'i gilydd yn rhan fwyaf y digwyddiadau hyfforddi dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn cynnal cyrsiau mewn nifer o leoliadau yn ogystal â darparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu cyfan tra bo un ohonynt hefyd yn darparu hyfforddiant i glystyrau o gyrff llywodraethu. Fodd bynnag, gwerth yw nodi hefyd bod nifer o awdurdodau lleol nad yw eu cyrff llywodraethu wedi'u cynrychioli'n hafal yn rhan fwyaf y sesiynau hyfforddi dros y ddwy flynedd ddiwethaf hefyd wedi darparu rhwng un a thri o'r gwasanaethau hyn.

4.13 Dywedodd un ymatebwr na fydd rhai llywodraethwyr yn eu hawdurdod lleol yn mynychu'r sesiynau oherwydd nad yw'r hyfforddiant ar gael yn y Gymraeg.

4.14 Ymhlith y rhesymau dros gynrychiolaeth wael cyrff llywodraethu mewn sesiynau hyfforddi sy'n achosi mwy o bryder yw'r rheiny sy'n gysylltiedig â **diwylliant** yr ysgol/corff llywodraethu. Cyfeiriodd saith ymatebwr at ddiwylliant yn yr

ysgol/corff llywodraethu sydd ddim yn cydnabod nac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hyfforddiant i lywodraethwyr. Teimlodd pump o'r ymatebwyr hyn bod rhai llywodraethwyr, yn syml, ddim yn gweld unrhyw werth na phwrpas i hyfforddiant - "Mae rhai'n teimlo nad oes angen hyfforddiant - mae'r ysgol yn gweithio'n dda", "nid yw rhai'n blaenoriaethu hyfforddiant", "mae rhai ysgolion/llywodraethwyr yn teimlo nad oes angen hyfforddiant arnynt", "(mae gan) y C.Ll/ysgol ddiwylliant o beidio â mynychu/dim diddordeb", "Nid oedd rhai ysgolion yn credu bod y pwnc yn berthnasol".

4.15 Roedd y ddau ymatebwr arall yn credu y gellir priodoli bodolaeth y diwylliant hwn, sydd ddim yn gwerthfawrogi hyfforddiant, yn uniongyrchol i naill ai'r Pennaeth neu'r Cadeirydd - "Mewn nifer fach o G.Ll, nid yw hyfforddiant i lywodraethwyr yn cael ei hyrwyddo'n flaenoriaeth uchel gan y Pennaeth/Cadeirydd", "efallai bod gan eraill (cyrff llywodraethu) ddiwylliant sy'n cael ei ddylanwadu'n gryf gan y Pennaeth a/neu gadeirydd sydd ddim yn credu bod hyfforddiant yn bwysig iawn".

4.16 Mae'n glir bod Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol yn ymwybodol o heriau presenoldeb llywodraethwyr ac maent yn defnyddio nifer o wahanol ddulliau neu strategaethau i annog llywodraethwyr i fynychu sesiynau hyfforddi.

4.17 Y tri dull mwyaf poblogaidd, y gellid eu galw'n rhai 'di-oed', y soniodd ymatebwyr amdanynt, oedd yn gyntaf, rhoi tystysgrifau presenoldeb i'r rheiny sy'n mynychu cyrsiau (mae 8 awdurdod lleol yn defnyddio'r rhain); yn ail, targedu llywodraethwyr penodol er enghraifft Cadeiryddion, Llywodraethwyr Anghenion Arbennig, ac ati ac anfon gwahoddiadau/nodiadau atgoffa atynt ar gyfer cyrsiau, naill ai mewn neges e-bost neu mewn llythyr (6 awdurdod lleol); yn drydydd, ffonio neu siarad yn uniongyrchol â llywodraethwyr unigol ynglŷn â chyrsiau hyfforddi (6 awdurdod lleol). Ymhlith y strategaethau eraill a ddefnyddir y mae "hybu" digwyddiadau hyfforddi yng nghylchlythyrau llywodraethwyr a darparu lluniaeth o ansawdd yn ystod sesiynau hyfforddi.

4.18 Ffordd arall, mwy parhaol a sefydledig o amlygu pwysigrwydd hyfforddiant i lywodraethwyr a ddefnyddir gan awdurdodau lleol oedd cynnwys "hyfforddiant llywodraethwyr" yn eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd cyrff llywodraethu. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, fe wnaeth 18 o awdurdodau lleol hyn.

4.19 Ail ddull, a hyd yn oed mwy ffurfiol sy'n amlygu pwysigrwydd hyfforddiant i lywodraethwyr (ac yn rhoi cyfle i drafod adborth o'r cyrsiau hyfforddi a chynllunio rhaglenni hyfforddi'r dyfodol) yw sefydlu llywodraethwyr "cyswllt" ar gyfer hyfforddiant ar gyrff llywodraethu ysgolion.

4.20 Dywedodd un deg pedwar o awdurdodau lleol bod gan eu cyrff llywodraethu ysgolion lywodraethwyr "cyswllt", y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys pwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant ar lefel corff llywodraethu, ac o'r un deg pedwar awdurdod lleol yma, mae wyth yn rhoi canllawiau neu ddisgrifiadau rôl i lywodraethwyr "cyswllt" i'w cynorthwyo.

4.21 Fodd bynnag, o'r un deg pedwar awdurdod lleol a chanddynt "lywodraethwyr cyswllt" ar eu cyrff llywodraethu, dim ond chwech sy'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr a "llywodraethwyr cyswllt" i drafod adborth o'r cyrsiau hyfforddi ac i gynllunio rhaglenni hyfforddiant y dyfodol. Ymhlith y pynciau eraill a gwmpaswyd yn y cyfarfodydd hyn, yn ôl ymatebwyr, oedd cynnwys cylchlythyrau, datblygu gwefan, cynadleddau ac "unrhyw beth... y mae arnynt eisiau ei drafod sy'n gysylltiedig â hyfforddiant."

4.22 Yn aml, mae Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr yn cyfeirio at lywodraethwyr unigol sy'n mynychu sesiynau hyfforddi'n rheolaidd fel "ffyddloniaid". Mae llywodraethwyr o'r fath yn mynychu sesiynau hyfforddi, yn ddiwahaniaeth a heb gwestiynu a oes wirioneddol angen yr hyfforddiant sydd ar gael arnynt neu beidio.

4.23 Mae'n ganfyddiad cyffredin bod y "ffyddloniaid" hyn yn aml yn gyfran fawr o'r llywodraethwyr yn rhan fwyaf y sesiynau hyfforddi. Fodd bynnag, ymddengys bod hyn yn gamsyniad gan fod un deg chwech o ymatebwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod ystod y llywodraethwyr a fu'n bresennol yn rhan fwyaf y sesiynau hyfforddi llywodraethwyr a gynhaliwyd ganddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn weddol hafal, h.y. bu cydbwysedd o lywodraethwyr sy'n "ffyddloniaid" a rhai nad ydynt yn "ffyddloniaid", tra dywedodd tri ymatebwr arall mai dim ond ychydig yn fwy o "ffyddloniaid" oedd yn mynychu sesiynau hyfforddi na llywodraethwyr eraill.

4.24 Cafodd y cwestiwn "pa ganran o gyrff llywodraethu ysgolion a gynrychiolwyd yn rhan fwyaf eich cyrsiau dros y ddwy flynedd ddiwethaf?" amrywiaeth o ymatebion. Gweler Tabl 10 *Canran y cyrff llywodraethu ysgol a gynrychiolwyd yn rhan fwyaf y cyrsiau awdurdod lleol 2006-2008.*

4.25 O ystyried y ffigyrau a ddangosir yn Nhabl 10, efallai nad yw'n syndod bod awdurdodau lleol wedi teimlo bod rhaid iddynt ganslo cyrsiau hyfforddi o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth oddi wrth gyrff llywodraethu. Gweler Tabl 11 *Cyfraddau canslo sesiynau hyfforddi awdurdodau lleol 2006-2008.*

4.26 Disgwylir i nifer o gyrsiau hyfforddi a gynigir gan awdurdodau lleol gael eu canslo o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth llywodraethwyr. Efallai y bu hyn yn wir oherwydd bod nifer fawr o lywodraethwyr yn nesáu at ddiwedd eu cyfnod yn y swydd, oherwydd bod nifer o lywodraethwyr wedi mynychu sesiynau hyfforddi ar y pwnc oedd ar gael o'r blaen, neu, yn syml, efallai y cafodd ei gynnal ar amser a/neu ddyddiad pan nad oedd nifer fawr o lywodraethwyr yn gallu bod yn bresennol. Fodd bynnag, hyd yn oed o ystyried y pethau hyn, mae'r ffaith bod chwe awdurdod lleol wedi dweud y bu'n rhaid canslo dros 20% o sesiynau hyfforddi o ganlyniad i ddiffyg cefnogaeth llywodraethwyr, ac yn achos dau awdurdod lleol bod dros 50% o gyrsiau wedi'u canslo, yn achosi gryn bryder (Gweler Tabl 11).

4.27 <u>Casgliadau</u>

Mae presenoldeb gwael llywodraethwyr mewn sesiynau hyfforddi yn broblem i bob awdurdod lleol ar draws Cymru. Mae awdurdodau lleol yn cydnabod hyn ac mae

pob un yn rhoi cynnig ar amrywiaeth o ddulliau i ymdrin â'r sefyllfa hon, fel sefydlu "llywodraethwyr cyswllt" ar gyfer hyfforddiant, darparu tystysgrifau presenoldeb ac ati. Fodd bynnag, mae'r broblem yn parhau i fod yn ddifrifol fel y dangoswyd yng nghanran y cyrff llywodraethu ysgolion a gynrychiolir yn rhan fwyaf y cyrsiau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol 2006-2008 (Tabl 10) a chyfraddau canslo sesiynau hyfforddi awdurdodau lleol 2006-2008 (Tabl 11).

Rhoddwyd nifer o resymau dros y presenoldeb gwael hwn, a'r un sy'n achosi'r mwyaf o bryder o lawer yw'r diwylliant sydd yn nifer o gyrff llywodraethu ysgolion sydd ddim yn gwerthfawrogi nac yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant i lywodraethwyr. Teimlodd nifer o ymatebwyr bod datblygiad y diwylliant hwn yn tarddu o lywodraethwyr unigol sydd, am ba reswm bynnag, yn credu nad yw cael hyfforddiant yn berthnasol, tra teimlodd ymatebwyr eraill mai diffyg cefnogaeth weithredol oddi wrth y Pennaeth a/neu'r Cadeirydd oedd y prif reswm dros y diffyg diddordeb.

4.28 Argymhellion

Mae pob awdurdod lleol yn ceisio brwydro yn erbyn problem presenoldeb gwael mewn sesiynau hyfforddi ac argymhellir eu bod yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a strategaethau i wella'r sefyllfa.

Hefyd, argymhellir bod awdurdodau lleol yn sefydlu llywodraethwyr cyswllt ar gyrff llywodraethu, sy'n gyfrifol am hyrwyddo hyfforddiant llywodraethwyr yng nghyfarfodydd cyrff llywodraethu, rhoi adborth i Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr ar effaith hyfforddiant, trafod anghenion hyfforddi a chynllunio rhaglenni hyfforddi'r dyfodol. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hwn, dylid rhoi disgrifiad o'r rôl neu ganllawiau i'r llywodraethwyr cyswllt a dylid cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr a Llywodraethwyr Cyswllt i drafod y materion a amlinellwyd uchod.

Er mwyn helpu atal datblygiad neu lle bo'n bodoli yn barod ymddatod diwylliant gwrth-hyfforddiant mewn cyrff llywodraethu, argymhellir bod adran ar bwysigrwydd hyfforddiant llywodraethwyr yn cael ei chynnwys ym mhob rhaglen hyfforddi Cadeiryddion. Mae hi'r un mor bwysig bod pwyslais tebyg ar bwysigrwydd hyfforddi llywodraethwyr yn cael ei roi mewn unrhyw hyfforddiant i Benaethiaid wrth drafod eu rôl wrth weithio gyda llywodraethwyr.

Er mwyn annog presenoldeb llywodraethwyr mewn sesiynau hyfforddi fe ddylai awdurdodau lleol, lle bo'n briodol, ystyried darparu hyfforddiant dwyieithog.

Yn olaf, dylai awdurdodau lleol dargedu'r cyrff llywodraethu hynny a chanddynt bresenoldeb gwael mewn sesiynau hyfforddi a mynychu cyfarfod cyrff llywodraethu a dangos i'r corff llywodraethu pam fod hyfforddiant yn bwysig a pham fod angen iddynt ymddiddori ynddo.

Tabl 10 Canran y cyrff llywodraethu ysgol a gynrychiolwyd yn rhan fwyaf y cyrsiau Awdurdod Lleol 2006-2008

Awdurdod Lleol		**Dros 70%**	**55-69%**	**45-54%**	**30-44%**	**15-29%**	**Llai nag 15%**
Blaenau Gwent	A					X	
Pen-y-bont ar Ogwr	B				X		
Caerffili	C					X	
Caerdydd	D					X	
Sir Gâr	E					X	
Ceredigion	F						X
Conwy	G					X	
Sir Ddinbych	H					X	
Sir Y Fflint	I				X		
Gwynedd	J						X
Merthyr Tudful	K					X	
Sir Fynwy	L					X	
Castell Nedd Port Talbot	M						X
Casnewydd	N				X		
Sir Benfro	O					X	
Powys	P				X		
Rhondda Cynon Taf	Q					X	
Abertawe	R						X
Bro Morgannwg	S					X	
Torfaen	T						X
Wrecsam	U						X
Ynys Môn	V				X		

Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys hyfforddiant cyrff llywodraethu llawn na hyfforddiant cyrff llywodraethu clwstwr.

Tabl 11 Cyfraddau canslo sesiynau hyfforddi awdurdodau lleol 2006-2008

Awdurdod Lleol		**Mwy na 50% wedi'u canslo**	**30-49% wedi'u canslo**	**20-29% wedi'u canslo**	**10-19% wedi'u canslo**	**5-9% wedi'u canslo**	**Llai na 5% wedi'u canslo**
Blaenau Gwent	A	X					
Pen-y-bont ar Ogwr	B		X				
Caerffili	C					X	
Caerdydd	D				X		
Sir Gâr	E						X
Ceredigion	F				X		
Conwy	G						X
Sir Ddinbych	H		X				
Sir Y Fflint	I						X
Gwynedd	J	X					
Merthyr Tudful	K		X				
Sir Fynwy	L				X		
Castell Nedd Port Talbot	M					X	
Casnewydd	N						X
Sir Benfro	O					X	
Powys	P						X
Rhondda Cynon Taf	Q						X
Abertawe	R				X		
Bro Morgannwg	S					X	
Torfaen	T						X
Wrecsam	U			X			
Ynys Môn	V						X

5 CYDWEITHIO

5.1 Dywedodd deg awdurdod lleol eu bod yn rhan o ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr gydag awdurdodau lleol eraill rhwng 2006 a 2008. Mae Tabl 12, *Cydweithio*, yn rhestru'r awdurdodau lleol sy'n rhan o weithio ar y cyd yn ogystal â'r pynciau y mae eu cydweithio'n eu cwmpasu.

Tabl 12 Cydweithio

Awdurdodau Lleol a gymerodd rhan	**Pwnc/pynciau a gwmpaswyd**
Casnewydd, Torfaen, Sir Fynwy, Caerdydd	Rheoli Perfformiad.
RCT, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr, Caerffili	Cynhadledd – pynciau a gwmpaswyd yn cynnwys Ymdrin â Chwynion, disgyblu staff, arolygon ysgolion, amddiffyn plant.
Sir Y Fflint, Sir Ddinbych	Y Corff Llywodraethu Effeithiol

5.2 Dywedodd awdurdod lleol arall ei fod wedi gwahodd llywodraethwyr awdurdod cyfagos i'w gynhadledd llywodraethwyr, a dywedodd Casnewydd y byddai'n gweithio ar y cyd â Thorfaen a Sir Fynwy i ddarparu sesiynau hyfforddi Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu.

5.3 Cafodd yr her fwyaf i awdurdodau lleol sy'n dymuno cydweithio ei chrynhoi gan un ymatebwr a nododd "rydym yn trafod posibiliadau (cyrsiau ar y cyd) yn rheolaidd gyda'n cydweithwyr mewn AALl eraill. Ond mae llywodraethwyr yn anfodlon teithio'n rhy bell."

5.4 Lle cynhaliwyd hyfforddiant ar y cyd ymhlith awdurdodau yn Ne Cymru, mae yna gydsyniad cyffredinol y bu cynrychiolaeth llywodraethwyr y gwahanol awdurdodau oedd yn cymryd rhan yn gyfartal. Er hyn, mae Sir Y Fflint a Sir Ddinbych yn cytuno yn eu hachos nhw y bu mwy o lywodraethwyr o'r awdurdod oedd yn cynnal yr hyfforddiant yn bresennol h.y. Sir Y Fflint.

5.5 Hefyd, mae'n werth nodi, er bod darpariaeth hyfforddiant ar y cyd yn gyfyng, mae Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol yn rhannu syniadau ac arferion da yn eu cyfarfodydd CCAC rheolaidd, ac yn gweithio ar y cyd (yn rhanbarthol fel arfer) ar weithgorau ac is-bwyllgorau'r grŵp CCAC.

5.6 Casgliadau

Ar hyn o bryd, er ei fod yn cynyddu, mae cydweithio wrth ddarparu hyfforddiant yn parhau i fod yn gyfyng iawn.

5.7 Argymhellion

Argymhellir y dylid annog awdurdodau lleol i gydweithio wrth ddarparu hyfforddiant. Yn ogystal â manteision ariannol amlwg cydweithio o'r fath, byddai trefniadau o'r fath hefyd yn annog rhwydweithio a lledaeniad arferion da rhwng llywodraethwyr o wahanol awdurdodau lleol. Yn amlwg, mae cydweithio ar draws nifer o awdurdodau lleol yn annog gwell rhwydweithio, ond, o weld y gwrthwynebiad (dealladwy) sydd gan rhai llywodraethwyr i deithio'r hyn y maent yn ei gredu sy'n bellterau annerbyniol, efallai y byddai'n syniad da i ddau awdurdod cyfagos gydweithio. Byddai hyn yn galluogi i hyfforddiant gael ei gynnal mewn lleoliad naill ai ar neu wrth y ffin neu gynnal hyfforddiant yn yr awdurdodau am yn ail.

6 LLEOLIAD

6.1 Mae rhan fwyaf yr awdurdodau lleol (16) yn cynnal cyrsiau hyfforddi mewn nifer o leoliadau ac roedd un o'r chwe awdurdod lleol sy'n cynnal cyrsiau mewn lleoliad canolog yn unig wedi cynnal cyrsiau mewn nifer o leoliadau o'r blaen, ond dywedasant "nad oedd y profiad o gynnal cyrsiau mewn lleoliadau eraill, h.y. mewn ysgolion, wedi bod yn bositif".

6.2 Er bod pob awdurdod lleol yn cynnal hyfforddiant i lywodraethwyr mewn un lleoliad canolog a/neu nifer o leoliadau, diddorol yw nodi bod un deg wyth o awdurdodau lleol hefyd wedi darparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu llawn neu unigol rhwng 2006 a 2008. Roedd un o'r rhain wedi darparu hyfforddiant ar bynciau a ddewiswyd gan gyrff llywodraethu unigol o restr a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, mae saith o awdurdodau lleol yn rhoi'r dewis i gyrff llywodraethu gael hyfforddiant ar unrhyw beth a fynnant, ac mae deg o awdurdodau lleol yn rhoi cyfuniad o'r ddau opsiwn uchod i gyrff llywodraethu h.y. darparodd yr awdurdod lleol restr o bynciau i gyrff llywodraethu a argymhellir gan yr awdurdod lleol ond hefyd, bu iddynt ddarparu hyfforddiant ar bynciau o ddewis y cyrff llywodraethu nad oeddynt ar restr yr awdurdod lleol.

6.3 O'r un deg wyth o awdurdodau lleol oedd yn darparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu cyfan/unigol, monitrodd un deg pedwar bresenoldeb ac effeithiolrwydd y sesiynau hyn, ac o'r un deg pedwar yma, daeth deuddeg i'r casgliad bod llywodraethwyr wedi croesawu'r hyfforddiant yn fwy na mathau traddodiadol o hyfforddiant (h.y. hyfforddiant sydd ar agor i bob llywodraethwr yn yr awdurdod lleol). Fel y nododd un Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr, "Mae llythyrau'n eu (llywodraethwyr) gwahodd i wneud hyfforddiant i'r C.Ll cyfan yn eu hysgol eu hunain wedi bod yn arbennig o lwyddiannus."

6.4 Hefyd, roedd hyfforddiant i glystyrau o gyrff llywodraethu yn eithaf poblogaidd ar draws awdurdodau lleol Cymru rhwng 2006 a 2008, gydag un deg pedwar yn darparu'r gwasanaeth hwn gyda dau arall yn cychwyn arno yn 2008.

6.5 Y ffordd fwyaf poblogaidd o ddarparu'r math yma o hyfforddiant oedd cynnal sesiynau i gyrff llywodraethu uwchradd a chyrff llywodraethu eu hysgolion "bwydo". Gweler Tabl 13 *Mathau o hyfforddiant clwstwr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.*

Tabl 13 Mathau o hyfforddiant clwstwr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

Math o glwstwr	**Nifer yr awdurdodau lleol a ddarparodd y math yma o hyfforddiant**
Clystyrau o Gyrff Llywodraethu Ysgolion Cynradd	7
Clystyrau o Gyrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd	1
Clystyrau o Gyrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd a chyrff llywodraethu eu hysgolion Cynradd "bwydo"	11

6.6 Mae nifer o bethau'n amlwg o'r data yn Nhabl 13. Yn gyntaf, fel y dywedwyd, cynnal hyfforddiant i Gyrff Llywodraethu Ysgolion Uwchradd a chyrff llywodraethu eu hysgolion Cynradd "bwydo" oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o ddarparu hyfforddiant clwstwr. Yn ail, mae yna wahaniaeth amlwg rhwng nifer yr awdurdodau lleol oedd yn darparu hyfforddiant i glystyrau o gyrff llywodraethu Ysgolion Cynradd a'r rheiny i rai Ysgolion Uwchradd. Nid yw'r rheswm dros y gwahaniaeth yma'n hysbys, er mae'n debyg ei fod yn cael ei ddylanwadu gan ddiffyg galw neu ddiffyg canfyddedig galw gan gyrff llywodraethu Ysgolion Uwchradd am hyfforddiant clwstwr. Yn olaf, mae'n amlwg, os bu i un deg pedwar o awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant clwstwr i gyrff llywodraethu eu hysgolion, y bu i rai o'r awdurdodau lleol hyn ddarparu mwy nag un math o hyfforddiant clwstwr. Mae'r dadansoddiad o nifer y mathau o hyfforddiant clwstwr a gynigiwyd gan yr un deg pedwar awdurdod lleol a ddarparodd y gwasanaeth hwn i'w gael yn Nhabl 14 *Nifer y mathau o hyfforddiant clwstwr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.*

Tabl 14 Nifer y mathau o hyfforddiant clwstwr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

Cynigiwyd un math o hyfforddiant clwstwr (h.y. un i gyrff llywodraethu Ysgolion Cynradd yn unig, cyrff llywodraethu Ysgolion Uwchradd yn unig, cyrff llywodraethu Ysgolion Uwchradd a chyrff llywodraethu eu hysgolion Cynradd "bwydo".	10 awdurdod lleol
Cynigiwyd dau fath o hyfforddiant clwstwr.	3 awdurdod lleol
Cynigiwyd y tri math o hyfforddiant clwstwr.	1 awdurdod lleol

6.7 O'r un deg pedwar o awdurdodau lleol a ddarparodd hyfforddiant i glystyrau o gyrff llywodraethu, darparodd tri restr o bynciau ar gyfer hyfforddiant oedd yn cael eu cynnig i gyrff llywodraethu, rhoddodd tri awdurdod lleol ddewis gwbl rydd o bynciau ar gyfer hyfforddiant i glystyrau o gyrff llywodraethu, tra darparodd yr wyth awdurdod lleol sy'n weddill gyfuniad o'r ddau opsiwn cyntaf.

6.8 Monitrodd naw o'r un deg pedwar o awdurdodau lleol a ddarparodd hyfforddiant clwstwr y sesiynau ar gyfer presenoldeb ac effeithiolrwydd. O'r naw yma, dywedodd saith bod hyfforddiant clwstwr wedi cael gwell croeso na'r ffurf draddodiadol o hyfforddiant i lywodraethwyr (h.y. hyfforddiant oedd yn agored i holl lywodraethwyr yr awdurdod lleol), dywedodd un nad oeddynt wedi gweld unrhyw wahaniaeth rhwng presenoldeb ac effeithiolrwydd hyfforddiant clwstwr a'r math traddodiadol o hyfforddiant. Yn olaf, roedd canfyddiadau'r nawfed awdurdod a fonitrodd hyfforddiant clwstwr yn gymysg. Dywedant, "Roedd presenoldeb hyfforddiant clwstwr y bu i ni ei ddarparu yn y flwyddyn gyntaf yn dda, y flwyddyn olynol, fe gafodd y rhan fwyaf eu canslo."

6.9 Ni ddywedodd yr un awdurdod lleol eu bod wedi darparu unrhyw fath o ddysgu o bell i'w llywodraethwyr rhwng 2006 a 2008, ar wahân i un a ddywedodd eu bod wedi rhoi gwybodaeth ar wefan yr awdurdod (ac rwy'n siŵr bod hyn yn arfer cyffredin ymhlith awdurdodau lleol, er y gellir cwestiynu a ellir diffinio hyn fel "hyfforddiant").

6.10 Wedi dweud hynny, dywed un awdurdod lleol "mae ysgolion wedi prynu'r DVD "Ambit" (sefydliad hyfforddi), 'Y Corff Llywodraethu Effeithiol' a brynais 'ên bloc'", ac mae dau awdurdod lleol yn amlwg yn ystyried yr opsiwn yn weithredol. Dywed un "ddim eto (ond) yn ei sefydlu at y dyfodol", dywed ail un, "rydym yn bwriadu datblygu hyn eleni i'w roi ar waith fesul cam ym mis Medi 2010".

6.11 Casgliadau

Mae'n glir bod rhan fwyaf yr awdurdodau lleol yn darparu amrywiaeth o leoliadau ar gyfer eu sesiynau hyfforddi mewn ymdrech i wella presenoldeb llywodraethwyr. Y dulliau mwyaf llwyddiannus o sicrhau presenoldeb da yw darparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu llawn/unigol a hyfforddiant clwstwr i gyrff llywodraethu. Hyd yma, ychydig iawn o ddysgu o bell sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol i lywodraethwyr.

6.12 Argymhellion

Cyn ystyried argymhellion ar leoliad hyfforddiant, mae'n bwysig cydnabod ei fod yn bosibl rhannu hyfforddiant llywodraethwyr yn ddau fath - hyfforddiant a fwriedir i lywodraethwyr unigol a hyfforddiant y mae'n well ei roi i grwpiau o lywodraethwyr o'r un corff llywodraethu os am gael y mewnbwn mwyaf. Mae'r math cyntaf o hyfforddiant, h.y. wedi'i fwriadu ar gyfer llywodraethwyr unigol, yn cynnwys pynciau fel:

Ymsefydlu (llywodraethwyr newydd)
Hyfforddiant i Gadeiryddion
Hyfforddiant i ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt
Materion Anghenion Addysgol Arbennig (Llywodraethwyr Anghenion Arbennig)

Mae'r ail fath o hyfforddiant h.y. wedi'i fwriadu ar gyfer grwpiau o lywodraethwyr (pob un ohonynt yn ddelfrydol) o'r un ysgol yn cynnwys:

Cynllunio Strategol
Gosod Targedau
Monitro a Gwerthuso
Deall Data
Amddiffyn Plant
Ymdrin â Chwynion

} Y sgiliau craidd y mae eu hangen i lywodraethu'n llwyddiannus

Lle bynnag y bo'n bosibl a phriodol, argymhellir y dylai awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant ar gyfer y math cyntaf o hyfforddiant mewn nifer o leoliadau yn hytrach na dim ond mewn un lleoliad canolog er mwyn cynorthwyo presenoldeb llywodraethwyr.

Argymhellir bod yr ail fath o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar sail corff llywodraethu cyfan neu, yn ddelfrydol, clwstwr o gyrff llywodraethu er mwyn cael yr effaith fwyaf ar arferion cyrff llywodraethu. Mae'r ffafriaeth ar gyfer yr opsiwn diweddarach, h.y. hyfforddiant clwstwr, wedi'i seilio ar gost (mae hyfforddi clystyrau o gyrff llywodraethu'n llai costus na hyfforddi rhai unigol) ac mae hyfforddiant clwstwr yn hwyluso rhwydweithio a rhannu syniadau ac arferion da rhwng cyrff llywodraethu. Hefyd, gall feithrin a/neu gefnogi gwaith traws-gyfnod rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd "bwydo" os yw clystyrau wedi'u seilio ar ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd "bwydo".

Mae'n bosibl nodi math arall o hyfforddiant y gellir ei ddisgrifio fel hyfforddiant "Mewn Pryd". Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer pwyllgorau Disgyblu Staff a Disgyblu Disgyblion. Dim ond cyn i aelodau'r pwyllgorau hyn gwrdd i ymdrin â mater y mae angen rhoi'r hyfforddiant hwn. Yn ddelfrydol, dylai'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu yn yr ysgol berthnasol.

Ni fyddai'n ddoeth gwneud argymhelliad cyffredinol bod awdurdodau lleol yn ceisio darparu pecynnau dysgu o bell ar gyfer llywodraethwyr eu hysgolion gan y gallai ymrwymiad o'r fath fod yn gostus. Yn gyntaf, cyn buddsoddi mewn unrhyw raglenni dysgu o bell, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod y rhaglenni o ansawdd; yn ail, rhaid iddynt fod yn sicr bod yr holl wybodaeth sydd mewn pecynnau o'r fath yn berthnasol i'r system addysg Gymraeg; yn drydydd rhaid iddynt fod yn ymwybodol y gallai rhannau'r o'r rhaglen fod yn berthnasol i gyfnod arbennig ac o ganlyniad, efallai nad ydynt yn gyfredol. Yn olaf, yn ogystal â bod yn ymwybodol o fanteision rhaglenni dysgu o bell, yn enwedig hygyrchedd i lywodraethwyr, fe ddylent hefyd fod yn ymwybodol o ffaeleddau dysgu o bell, yn arbennig anawsterau wrth wirio faint sy'n cael ei ddefnyddio. Hefyd, wrth gwrs, nid yw dysgu o bell yn caniatáu i lywodraethwyr rwydweithio'n uniongyrchol.

Fodd bynnag, ar yr amod bod awdurdodau lleol yn sylweddoli bod dysgu o bell yn gyflenwol i ddulliau eraill, mwy traddodiadol o hyfforddiant ac nid yn cymryd eu lle ("yn ogystal â" nid "yn lle"), argymhellir bod awdurdodau lleol yn archwilio i gyflwyniad strategaethau dysgu o bell i'w rhaglenni hyfforddi llywodraethwyr.

7 AMSERU A HYD

7.1 Darparodd pob awdurdod lleol yng Nghymru hyfforddiant i lywodraethwyr ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos rhwng 2006 a 2008 a 2007 a 2008.

7.2 Dywedodd ugain o ymatebwyr nad oeddent wedi gweld unrhyw wahaniaeth mawr yn lefel y presenoldeb mewn cyrsiau ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos, dywedodd un ymatebwr ei fod yn ymddangos mai gan ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau oedd lefelau uchaf presenoldeb llywodraethwyr, a dywedodd un ymatebwr bod presenoldeb llywodraethwyr ar ei orau ar ddydd Mercher.

7.3 Cynhaliodd un deg pump o awdurdodau lleol sesiynau hyfforddi ar wahanol adegau o'r dydd a dywedodd chwech o'r rhain eu bod wedi gweld gwahaniaeth mawr ym mhresenoldeb llywodraethwyr ar wahanol adegau o'r dydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw unffurfiaeth ym mhoblogaeth amseroedd hyfforddiant ar draws y chwe awdurdod yma. Dywedodd un mai sesiynau'r bore oedd yn denu'r presenoldeb gorau (9.00 a.m. - 3.00 p.m.) ac ymateb y chweched i'r cwestiwn 'pa amser o'r dydd y mae lefelau presenoldeb llywodraethwyr ar ei orau' oedd, "Ar y cychwyn, hyfforddiant trwy'r dydd, ond mae hyn wedi lleihau ar ôl ychydig".

7.4 Bu unffurfiaeth nodedig o ran hyd rhan fwyaf y sesiynau hyfforddi llywodraethwyr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ar draws Cymru. Dywedodd un deg saith bod eu sesiynau hyfforddi fel arfer yn para o 1 i 2 awr, tra dywedodd y pum awdurdod lleol sy'n weddill bod eu sesiynau hyfforddi'n para rhwng 2 a 3 awr. Wrth gwrs, mae'n amhosibl bod yn fanwl gywir gan fod cymaint yn amodol ar faint o gwestiynau y mae'r rheiny sy'n cael yr hyfforddiant yn eu gofyn ac/neu yn cymryd rhan weithredol mewn sesiynau. Ond, teg fyddai tybio bod y rhan fwyaf o sesiynau hyfforddi ar draws holl awdurdodau lleol Cymru yn y ddwy flynedd rhwng 2006 a 2008 wedi para rhwng 1½ a 2½ awr.

7.5 Bu i un deg tri o awdurdodau lleol trefnu cynadleddau blynyddol ar gyfer eu llywodraethwyr a dywedodd dau arall eu bod wedi trefnu cynadleddau yn y gorffennol, a nododd un bod "un eleni wedi dilyn seibiant o ddwy flynedd (ond) cafodd ei chanslo o ganlyniad i ddiffyg diddordeb!"

7.6 Ymddengys bod cynnal cynadleddau blynyddol i lywodraethwyr wedi dod yn draddodiad mewn rhai awdurdodau gydag wyth ohonynt yn dweud eu bod wedi bod yn eu trefnu ers dros bedair blynedd. Mae tri awdurdod wedi bod yn eu cynnal ers pedair blynedd, un awdurdod ers dwy flynedd ac un awdurdod am un flwyddyn.

7.7 <u>Casgliadau</u>

Mae'n glir bod awdurdodau lleol ar draws Cymru wedi amrywio'r amseriad a'r dyddiau y caiff hyfforddiant i lywodraethwyr ei gynnal er mwyn ceisio gwella presenoldeb yn y sesiynau. Hefyd, ymddengys bod yna gonsensws ynglŷn â hyd sesiynau hyfforddi, sef tua 2 awr.

Mae poblogrwydd cynadleddau blynyddol i lywodraethwyr ar draws awdurdodau lleol Cymru yn amrywio, er ei fod yn amlwg yn yr wyth awdurdod lleol sydd wedi bod yn cynnal cynadleddau blynyddol ers mwy na phedair blynedd, bod traddodiad wedi datblygu.

7.8 Argymhellion

Argymhellir bod awdurdodau lleol yn parhau i gynnig hyfforddiant i lywodraethwyr ar wahanol ddyddiau'r wythnos yn ogystal ag ar wahanol adegau o'r dydd er mwyn annog presenoldeb da.

Mae darparu cynadleddau blynyddol i lywodraethwyr yn faes arall y gallai awdurdodau lleol gydweithio arno'n fuddiol. O ganlyniad, argymhellir bod awdurdodau lleol yn cydweithio wrth ddarparu cynadleddau blynyddol ar y cyd. Byddai cymryd cam o'r fath yn gwella presenoldeb llywodraethwyr ac yn hwyluso rhwydweithio ar draws ffiniau awdurdodau, yn ogystal â rhannu costau. Mae'r argymhelliad hwn yn berthnasol yn arbennig i'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn cynnal cynadleddau blynyddol i'w llywodraethwyr ar hyn o bryd.

8 HYFFORDDWYR

8.1 Fel y mae Tabl 15, *Darparwyr Hyfforddiant*, yn dangos, defnyddiodd pob awdurdod lleol yng Nghymru amrywiaeth o ddarparwyr ar gyfer hyfforddiant i lywodraethwyr rhwng 2006 a 2008, er y cafodd rhan fwyaf yr hyfforddiant i lywodraethwyr ei ddarparu'n 'fewnol' h.y. naill ai gan Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr neu swyddogion Awdurdod Lleol a chanddynt gylch gorchwyl arbennig e.e. cyllid, iechyd a diogelwch.

Tabl 15 Darparwyr Hyfforddiant

Darparwr Hyfforddiant		Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr				Swyddogion Llywodraethwyr Lleol (Cylch Gorchwyl Penodol)				Athrawon yn eich AALl				Athrawon o AALl arall				Ymgynghorwyr Addysgol Allanol			
		Bob tro	Fel arfer	Weithiau	Yn achlysurol	Bob tro	Fel arfer	Weithiau	Yn achlysurol	Bob tro	Fel arfer	Weithiau	Yn achlysurol	Bob tro	Fel arfer	Weithiau	Yn achlysurol	Bob tro	Fel arfer	Weithiau	Yn achlysurol
Blaenau Gwent	A				X		X						X								X
Pen-y-bont ar Ogwr	B				X	X													X		
Caerffili	C			X				X					X							X	
Caerdydd	D	X				X															X
Sir Gâr	E			X			X						X								X
Ceredigion	F		X					X				X									
Conwy	G	X						X													
Sir Ddinbych	H					X															
Sir Y Fflint	I		X				X														
Gwynedd	J				X				X												X
Merthyr Tudful	K		X				X														X
Sir Fynwy	L							X								X				X	
Castell Nedd Port Talbot	M		X					X				X									X
Casnewydd	N		X				X														
Sir Benfro	O		X					X													
Powys	P		X					X													
Rhondda Cynon Taf	Q		X					X				X									
Abertawe	R					X															
Bro Morgannwg	S			X				X												X	
Torfaen	T		X			X															X
Wrecsam	U				X		X						X								X
Ynys Môn	V						X												X		
	Cyfansymiau	2	9	3	4	5	7	9	1	0	0	4	3	0	0	0	1	0	2	4	6

8.2 Mae un deg tri o awdurdodau lleol yn cyflogi ymgynghorwyr allanol i ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr, er mewn un deg un achos, nid yw ymgynghorwyr o'r fath yn cael eu defnyddio'n aml (dywedodd pump eu bod yn defnyddio ymgynghorwyr "weithiau" a dywedodd chwech eu bod yn defnyddio ymgynghorwyr yn "achlysurol".)

8.3 O wybod bod Anghenion Arbennig a materion cwricwlar yn bynciau a gwmpaswyd gan ugain o awdurdodau lleol rhwng 2006 a 2008 (gweler Tabl 9), efallai ei fod ychydig o syndod cyn lleied ohonynt (saith) a ddefnyddiodd athrawon naill ai o du fewn i'r awdurdod neu o awdurdod arall i ddarparu'r hyfforddiant.

8.4 Dywedodd pum awdurdod lleol eu bod wedi defnyddio darparwyr hyfforddiant yn ogystal â'r rheiny y soniwyd amdanynt yn Nhabl 14. Dywedodd Sir Ddinbych eu bod wedi defnyddio Llywodraethwyr Cymru a Chanolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddiant Llywodraethwyr ac Ymchwil i ddarparu hyfforddiant yn achlysurol, er efallai bod awdurdodau lleol eraill wedi cyfeirio at y ddau sefydliad yma fel "ymgynghorwyr addysgol allanol". Er enghraifft, cynhaliodd awdur yr adroddiad hwn, sef Cyfarwyddwr Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddiant Llywodraethwyr ac Ymchwil sesiynau hyfforddi i Gaerffili, Sir Y Fflint, Castell Nedd Port Talbot a Blaenau Gwent yn ogystal â Sir Ddinbych rhwng 2006 a 2008.

8.5 Yr awdurdodau lleol eraill a ddefnyddiodd darparwyr hyfforddiant ar wahân i'r rheiny y soniwyd amdanynt yn Nhabl 15 oedd Merthyr Tudful, Casnewydd, Powys a Bro Morgannwg, ac fe ddywedodd pob un bod hyfforddwyr o'r fath o'u gwasanaeth cynghori neu, yn achos Bro Morgannwg, y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion.

8.6 Dim ond un awdurdod lleol yng Nghymru, sef Bro Morgannwg, a ddefnyddiodd llywodraethwyr i ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr. Ymddengys bod hyn yn anarferol oherwydd y byddai gan lywodraethwyr "hyfforddi" o'r fath fewnwelediad unigryw i anghenion a dealltwriaeth llywodraethwyr.

8.7 Mae'n glir bod awdurdodau lleol yn credu bod helpu llywodraethwyr i baratoi at arolwg ysgol yn bwysig iawn gan fod pob un o'r 22 awdurdod wedi darparu hyfforddiant yn arbennig at y diben hwn.

8.8 Fel arfer, cynhaliwyd hyfforddiant o'r fath gan wasanaeth cynghori'r awdurdod lleol.

8.9 <u>Casgliadau</u>

Caiff rhan fwyaf yr hyfforddiant a ddarperir gan awdurdodau lleol ar draws Cymru ei ddarparu gan ddarparwyr "mewnol" h.y. Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr a/neu swyddogion awdurdod lleol a chanddynt gylch gorchwyl penodol fel cyllid neu iechyd a diogelwch. Defnydd cyfyng sydd o ymgynghorwyr allanol neu athrawon i ddarparu hyfforddiant, a dim ond un awdurdod lleol sy'n defnyddio llywodraethwyr i roi hyfforddiant.

8.10 Argymhellion

Er nad yw arbenigedd darparwyr hyfforddiant "mewnol" yn cael ei gwestiynau, mae awdurdodau lleol yn gorddibynnu ar gronfa gymharol fach o dalent, sy'n anochel o ystyried eu maint. Er mwyn goresgyn y broblem hon a chyflwyno amrywiaeth mwy o ddarparwyr ac o ganlyniad ymagweddau hyfforddi, argymhellir bod awdurdodau lleol yn ystyried defnyddio ymgynghorwyr addysg y tu allan i'w hawdurdod lleol yn amlach nag ar hyn o bryd, yn arbennig y rheiny a chanddynt wybodaeth arbenigol fanwl am faterion neu bynciau penodol. At hyn, argymhellir bod awdurdodau lleol yn rhannu arbenigedd trwy gyfnewid darparwyr hyfforddiant awdurdod lleol gydag awdurdodau lleol cyfagos i hyfforddi llywodraethwyr eu hysgolion. Yn olaf, lle bynnag y bo'n bosibl, argymhellir bod awdurdodau lleol yn cynnwys athrawon ac, yn fwy penodol, llywodraethwyr wrth ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr.

9 MONITRO A GWERTHUSO

9.1 Mae'n amlwg bod pob awdurdod lleol ar draws Cymru yn monitro a gwerthuso'r hyfforddiant maent yn ei ddarparu i lywodraethwyr ysgol. Gweler Tabl 16 *Dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i fonitro a gwerthuso hyfforddiant i lywodraethwyr.*

Tabl 16 Dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i fonitro a gwerthuso hyfforddiant i lywodraethwyr

Awdurdod Lleol		Fflurflenni gwerthuso i gynrychiolwyr	Holi llywodraethwyr unigol	Arolygon o gyrff llywodraethu ar draws yr AALl	Adborth oddi wrth lywodraethwyr cyswllt	Defnydd o arolygwyr barn proffesiynol	Arall	Nifer y dulliau a ddefnyddiwyd
Blaenau Gwent	A	X		X				2
Pen-y-bont ar Ogwr	B	X						1
Caerffili	C	X		X				2
Caerdydd	D	X		X	X			3
Sir Gâr	E	X					X	2
Ceredigion	F	X	X					2
Conwy	G	X						1
Sir Ddinbych	H	X						1
Sir Y Fflint	I	X		X				2
Gwynedd	J	X	X	X				3
Merthyr Tudful	K	X		X				2
Sir Fynwy	L	X			X			2
Castell Nedd Port Talbot	M	X						1
Casnewydd	N	X	X	X			X	4
Sir Benfro	O	X		X			X	3
Powys	P	X						1
Rhondda Cynon Taf	Q	X	X	X			X	4
Abertawe	R	X	X		X			3
Bro Morgannwg	S	X		X				2
Torfaen	T	X	X	X	X			4
Wrecsam	U	X						1
Ynys Môn	V	X						1
	Cyfanswm	22	6	11	4	0	0	

9.2 Y dull mwyaf poblogaidd o lawer o fonitro a gwerthuso oedd y ffurflen werthuso a lenwyd ar ddiwedd y sesiwn hyfforddi gan y rheiny oedd yn mynychu'r hyfforddiant, dull a ddefnyddiwyd gan bob awdurdod lleol.

9.3 Hefyd, calonogol yw nodi bod un deg pump o awdurdodau lleol wedi defnyddio o leiaf un dull o fonitro a gwerthuso hyfforddiant.

Defnyddiodd wyth awdurdod lleol ddau ddull o fonitro a gwerthuso hyfforddiant.
Defnyddiodd pedwar awdurdod lleol dri dull o fonitro a gwerthuso hyfforddiant.
Defnyddiodd tri awdurdod lleol bedwar dull o fonitro a gwerthuso hyfforddiant.

9.4 Rhaid canmol hyn gan fod gan bob dull o fonitro a gwerthuso gryfderau a gwendidau, felly mae defnyddio nifer o ddulliau i gael darlun mor llawn a chywir â phosibl yn arfer da.

9.5 Y dull "arall" o fonitro a gwerthuso nad oedd wedi'i gynnwys yn Nhabl 15 ac a ddefnyddwyd gan bedwar awdurdod lleol oedd adborth a gymerwyd o "adroddiadau a gafwyd yng nghyfarfodydd cyrff llywodraethu gan lywodraethwyr oedd wedi mynychu hyfforddiant".

9.6 Unwaith eto, calonogol yw nodi bod pob awdurdod lleol wedi ymateb i ganfyddiadau ymarferion monitro gan fod ugain wedi dweud, yn sgil gwerthuso sylwadau llywodraethwyr, y bu iddynt addasu neu ddiwygio rhaglenni hyfforddi.

9.7 Y math mwyaf cyffredin o ddiwygiadau o bell ffordd oedd i amseriad a lleoliad sesiynau hyfforddi, er yn ddiddorol, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at addasiad arddull hyfforddiant - "gwell cyfranogiad gan lywodraethwyr trwy gynnwys ymarferion unigol a gwaith grŵp", "Mae cyflwyniadau (nawr) yn fyrrach, datblygwyd ymarferion a gweithgareddau. Dim defnydd o daflunwyr dros ysgwydd na chwarae rhan", "Adolygu cynnwys yn flynyddol - llai o PowerPoint yn cael ei ddefnyddio nawr, mwy o ymyrraeth, cadw at amser."

9.8 Cyfeiriodd dau awdurdod arall at ddatblygiad hyfforddiant "clwstwr" o ganlyniad i werthuso adborth llywodraethwyr ar hyfforddiant – "Mae sylwadau ar hyfforddiant clwstwr a hyfforddiant i gyrff llywodraethu llawn wedi arwain at gynnydd yn y rhain", "Mwy o bwyslais ar (hyfforddiant) clwstwr".

9.9 At ei gilydd, roedd llywodraethwyr sydd wedi mynychu cyrsiau awdurdod lleol rhwng 2006 a 2008 yn fodlon ar yr hyfforddiant a gawsant. Dywedodd un deg saith awdurdod lleol bod yr adborth a gafwyd o ran fwyaf eu cyrsiau yn dda iawn, dywedodd pedwar bod adborth yn dda a dywedodd un bod adborth yn weddol dda ac ni ddywedodd unrhyw un bod rhan fwyaf yr adborth yn weddol, gwael neu wael iawn.

9.10 Yna cafodd Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr eu holi am fonitro a gwerthuso effaith hyfforddiant ac at ddiben y cwestiwn hwn, cafodd "effaith" ei ddiffinio fel "sut ac i ba raddau y mae sesiwn neu raglen hyfforddi arbennig wedi gwella

effeithiolrwydd y llywodraethwr a fynychodd yr hyfforddiant ac yn y pen draw ei g/chorff llywodraethu."

9.11 Dim ond gan ddau awdurdod lleol y mae dulliau ar gyfer monitro effaith hyfforddiant ar waith cyrff llywodraethu eu hysgolion, ac mae'r ddau yn defnyddio holiaduron. Dechreuodd un o'r awdurdodau lleol fonitro effaith yn 2007-2008 ac felly ni fyddent yn dadansoddi'r canfyddiadau hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, yn amlwg bu'r math yma o fonitro effaith hyfforddiant ar waith gan yr awdurdod lleol arall ers peth amser – "Gwneir yr holiadur bob dwy flynedd ac mae'n cynnwys cwestiynau ar p'un ai a yw'r corff llywodraethu'n gweithio'n well o ganlyniad i'r hyfforddiant ac a yw llywodraethwyr unigol yn teimlo'n fwy effeithiol o ganlyniad i'r hyfforddiant. Yn amlwg, mae hyn yn oddrychol ar ran yr ymatebwr".

9.12 Er mai dim ond dau awdurdod lleol sy'n defnyddio dulliau ffurfiol o fonitro a gwerthuso effaith hyfforddiant ar gyrff llywodraethu, dywedodd un deg tri eu bod yn defnyddio dulliau anffurfiol (un o'r awdurdodau lleol hyn oedd un o'r ddau sydd hefyd yn defnyddio dulliau ffurfiol) ac mae un yn bwriadu gwneud hynny.

9.13 Mae'n glir o ymatebion awdurdodau lleol bod y rheiny sy'n darparu gwasanaeth clercio i'w hysgolion mewn sefyllfa dda i arsylwi effaith hyfforddiant ar waith y cyrff llywodraethu. Caiff hyn ei grynhoi'n dda gan un ymatebwr, "Gan ein bod yn clercio rhan fwyaf yr ysgolion, rydym yn gallu monitro llywodraethwyr wrth iddynt ymgymryd â'u rôl."

9.14 Fodd bynnag, y math mwyaf cyffredin o fonitro a gwerthuso anffurfiol yw siarad â llywodraethwyr unigol – "Siarad â llywodraethwyr, penaethiaid, llywodraethwyr cyswllt ac ati yn gyffredinol" "Rydym yn siarad â llywodraethwyr, Cadeiryddion a Phenaethiaid", "Siarad â Phenaethiaid a Chadeiryddion, yn arbennig pan gawn gais am hyfforddiant corff llywodraethu llawn."

9.15 <u>Casgliadau</u>

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i fonitro a gwerthuso'r hyfforddiant y maent yn ei ddarparu i lywodraethwyr er mai'r un mwyaf poblogaidd o lawer yw'r ffurflenni gwerthuso y mae llywodraethwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant yn eu llenwi, dull a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol.

Dim ond dau awdurdod lleol sy'n monitro a gwerthuso effaith hyfforddiant ar arferion cyrff llywodraethu'n ffurfiol, ac mae'r ddau yn defnyddio holiaduron sy'n ystyried yr effaith a gafodd hyfforddiant ar y llywodraethwyr unigol a chyrff llywodraethu cyfan.
Mae un deg tri o awdurdodau lleol yn ymgymryd â monitro a gwerthuso anffurfiol o effaith hyfforddiant ac mae hwn yn cynnwys arsylwi cyrff llywodraethu wrth eu gwaith lle bo presenoldeb awdurdod lleol mewn cyfarfodydd cyrff llywodraethu (clercod a ddarperir gan yr awdurdod lleol, yn ddieithriad) a thrafodaethau anffurfio gyda Chadeiryddion, Penaethiaid a llywodraethwyr unigol.

9.16 Argymhellion

Er bod pob awdurdod lleol yn monitro a gwerthuso eu hyfforddiant i lywodraethwyr, mae saith yn dibynnu'n llwyr ar daflenni gwerthuso sesiwn i wneud hyn. Er y dylid canmol unrhyw fath o fonitro a gwerthuso, gall dibynnu'n llwyr ar un math arwain at farn gyfyng. O ganlyniad, er mwyn i awdurdodau lleol gael darlun mor llawn â phosibl o effeithiolrwydd eu rhaglen hyfforddi, argymhellir eu bod yn defnyddio mwy nag un dull i fonitro a gwerthuso.

Yr unig reswm dros gynnal hyfforddiant yw cael effaith ar effeithiolrwydd llywodraethwyr unigol a chyrff lywodraethu llawn ill dau. Mae monitro a gwerthuso effaith hyfforddiant yn hynod o anodd ond oni bai ei fod yn cael ei gynnal, mae'n amhosibl mesur gwerth yr hyfforddiant a ddarperir. Mae dibynnu'n llwyr ar ddulliau anffurfiol o fesur effaith yn annibynadwy iawn. O ganlyniad, argymhellir bod pob awdurdod lleol yn datblygu o leiaf un dull ffurfiol o fonitro a gwerthuso effaith hyfforddiant.

10 CRYNODEB O GASGLIADAU

10.1 Mae maint Unedau Cymorth i Lywodraethwyr awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr ar draws Cymru, yn ogystal â chyfrifoldebau staff o fewn yr unedau hyn. At hyn, mae rhai awdurdodau'n cynnig gwasanaeth clercio i'w ysgolion (11 awdurdod lleol) lle nad yw eraill yn gwneud hyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gydberthynas rhwng maint yr awdurdod lleol a maint Unedau Cymorth i Lywodraethwyr ac, yn debyg, dim cydberthynas rhwng maint yr awdurdod lleol a darpariaeth gwasanaeth clercio i gyrff llywodraethu.

10.2 Darparodd pob awdurdod lleol yng Nghymru hyfforddiant ymsefydlu i lywodraethwyr ysgol newydd rhwng 2006 a 2008. Yna, cynigodd awdurdodau lleol raglen hyfforddi amrywiol, er cafodd hyfforddiant ar gyfer rolau "craidd" llywodraethwyr, sef monitro a gwerthuso, gosod targedau, cynllunio strategol a deall data ei ddarparu gan 16 awdurdod lleol, 12 awdurdod lleol, 10 awdurdod lleol a 10 awdurdod lleol yn ôl eu trefn.

10.3 Roedd presenoldeb gwael llywodraethwyr mewn sesiynau hyfforddi'n broblem i bob awdurdod lleol yng Nghymru rhwng 2006 a 2008. Dangoswyd hyn gan ganran isel y cyrff llywodraethu ysgol a gynrychiolwyd yn rhan fwyaf y cyrsiau dros y cyfnod hwn a hefyd gan y gyfradd canslo sesiynau hyfforddi; a hynny er gwaetha'r ffaith bod awdurdodau lleol wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau i wella presenoldeb. Y rheswm dros y presenoldeb gwael hwn a roddwyd gan nifer o awdurdodau lleol sy'n achosi'r mwyaf o bryder yw bodolaeth diwylliant mewn rhai cyrff llywodraethu nad oedd yn gweld unrhyw werth i hyfforddiant i lywodraethwyr.

10.4 Yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, cydweithio cyfyng oedd rhyngddynt ar hyfforddiant i lywodraethwyr rhwng 2006 a 2008.

10.5 Bu i ran fwyaf yr awdurdodau lleol ddarparu amrywiaeth o leoliadau ar gyfer sesiynau hyfforddi mewn ymdrech i wella presenoldeb llywodraethwyr. Y dulliau mwyaf llwyddiannus o gael presenoldeb da oedd darparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu llawn/unigol a hyfforddiant i glystyrau o gyrff llywodraethu. Rhwng 2006 a 2008, ychydig iawn o ddysgu o bell ar gyfer llywodraethwyr a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.

10.6 Yn debyg, amrywiodd awdurdodau lleol amser a dyddiau hyfforddiant i geisio bodloni dymuniadau llywodraethwyr. Bu i un deg tri o awdurdodau lleol drefnu cynadleddau blynyddol i lywodraethwyr rhwng 2006 a 2008.

10.7 Ymgymerwyd â rhan fwyaf yr hyfforddiant mewn awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng 2006 a 2008 gan ddarparwyr "mewnol" h.y. Swyddogion Cymorth i Lywodraethwyr a/neu swyddogion awdurdod lleol a chanddynt gylch gorchwyl penodol fel cyllid neu iechyd a diogelwch. Defnydd cyfyng a wnaed o ymgynghorwyr allanol, athrawon a llywodraethwyr (un awdurdod lleol yn unig a

ddywedodd ei fod yn defnyddio llywodraethwyr fel hyfforddwyr) wrth ddarparu hyfforddiant.

10.8 Defnyddio awdurdodau lleol amrywiaeth o ddulliau i werthuso hyfforddiant i lywodraethwyr er mai'r un mwyaf poblogaidd o lawer oedd ffurflenni gwerthuso hyfforddiant. Dim ond dau awdurdod lleol a ymgymerodd â gwerthusiad o effaith hyfforddiant (tasg anos o lawer) a gwnaethant hyn trwy ddefnyddio holiaduron. Dibynnodd yr un deg tri o awdurdodau lleol a ddefnyddiodd dulliau anffurfiol o werthuso yn fawr ar drafodaethau anffurfiol gyda Phenaethiaid, Cadeiryddion a llywodraethwyr unigol.

11 CRYNODEB O ARGYMHELLION

11.1 Dylai awdurdodau lleol ystyried maint eu Hunedau Cymorth i Lywodraethwyr mewn perthynas â'u rolau ac, yn arbennig, ystyried rhoi pennaeth ar, neu gynnwys o leiaf un aelod o staff yn eu Hunedau Cymorth i Lywodraethwyr, sydd ddim ond yn gyfrifol am gymorth i lywodraethwyr.

11.2 Dylai awdurdodau lleol cyfagos gydweithio wrth ddarparu sesiynau hyfforddi ar y cyd i lywodraethwyr yn ogystal â chynadleddau blynyddol er mwyn cronni adnoddau ac arbenigedd, lleihau dyblygiad, lleihau costau ac annog rhwydweithio a lledaeniad arferion da rhwng cyrff llywodraethu gwahanol awdurdodau lleol.

11.3 Dylai pob awdurdod lleol, naill ai ar y cyd neu'n unigol, darparu hyfforddiant yn sgiliau craidd llywodraethwyr sef cynllunio strategol, gosod targedau, monitro a gwerthuso a deall data.

11.4 Dylid cynhyrchu rhaglen hyfforddi genedlaethol mewn deall data i helpu awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant yn y maes hwn ac i ychwanegu at y rhaglenni hyfforddi cenedlaethol a gynhyrchir yn barod mewn gosod targedau, cynllunio strategol a monitro a gwerthuso.

11.5 Dylai awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i fynd i'r afael â phresenoldeb isel mewn sesiynau hyfforddi llywodraethwyr. Ar yr un pryd, dylai cyrff llywodraethu sefydlu llywodraethwr cyswllt ar gyfer hyfforddiant a dylai awdurdodau lleol roi canllawiau iddynt ar eu dyletswyddau yn ogystal â threfnu cyfarfodydd rheolaidd i gael adborth ar hyfforddiant ac i drafod anghenion hyfforddi.

11.6 Er mwyn atal datblygiad diwylliant gwrth-hyfforddiant mewn cyrff llywodraethu, dylai pwysigrwydd hyfforddiant i lywodraethwyr gael ei gynnwys mewn sesiynau hyfforddi Cadeiryddion a sesiynau hyfforddi i Benaethiaid ar eu gwaith gyda chyrff llywodraethu. Fel pwynt cychwyn, dylid annog pob corff llywodraethu i gynnwys "Hyfforddiant" yn eitem ar agenda holl gyfarfodydd eu corff llywodraethu.

11.7 Gellir rhannu hyfforddiant cyrff llywodraethu yn dri math, sef

(a) Hyfforddiant i lywodraethwyr unigol – byddai hyfforddiant o'r fath yn cynnwys hyfforddiant i lywodraethwyr newydd (ymsefydlu), hyfforddiant i gadeiryddion, hyfforddiant i ddisgybl-lywodraethwyr cyswllt, materion Anghenion Addysgol Arbennig (llywodraethwr Anghenion Addysgol Arbennig).

(b) Hyfforddiant i gyrff llywodraethu llawn neu "glystyrau" o gyrff llywodraethu - byddai hyfforddiant o'r fath yn cynnwys cynllunio strategol, gosod targedau, monitro a gwerthuso, deall data, ymdrin â chwynion.

(c) "Hyfforddiant Mewn Pryd" – byddai hyfforddiant o'r fath yn cynnwys hyfforddiant i bwyllgorau disgyblu staff a disgyblu disgyblion.

Argymhellir bod awdurdodau lleol yn darparu hyfforddaint o'r math cyntaf mewn nifer o leoliadau lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol i hwyluso presenoldeb llywodraethwyr.

Argymhellir bod yr ail fath o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar sail corff llywodraethu unigol/cyfan neu ar sail clwstwr o gyrff llywodraethu i gael yr effaith fwyaf ar arferion cyrff llywodraethu. Yn rhan fwyaf yr achosion, yr ail opsiwn sy'n ddewisol gan ei fod yn llai costus ac mae'n hwyluso rhwydweithio rhwng cyrff llywodraethu.

Argymhellir mai dim ond i aelodau'r pwyllgorau y cyfeiriwyd atynt ym mhwynt (c) cyn iddynt ymdrin â mater y mae angen darparu hyfforddiant o'r trydydd math ("mewn pryd").

11.8 Er y dylai awdurdodau lleol ymchwilio i gyflwyniad strategaethau dysgu o bell i'w rhaglen hyfforddi llywodraethwyr, dylent fod yn ymwybodol o'i gyfyngiadau (gweler t.27) yn ogystal â'i gryfderau, yn ogystal â'i ystyried yn ychwanegol i, ac nid yn lle, dulliau hyfforddi traddodiadol.

11.9 Er mwyn ehangu eu cronfa o hyfforddwyr y tu hwnt i swyddogion awdurdod lleol, ac felly cyflwyno llywodraethwyr i amrywiaeth ehangach o ymagweddau hyfforddi, argymhellir y dylai awdurdodau lleol rannu hyfforddwyr gydag awdurdodau cyfagos, cynnwys llywodraethwyr ac athrawon wrth hyfforddi llywodraethwyr lle bo'n briodol a defnyddio ymgynghorwyr addysg a chanddynt wybodaeth arbenigol, fanwl o faterion penodol.

11.10 Mae monitro a gwerthuso hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn berthnasol ac o ansawdd da. O ganlyniad, argymhellir bod awdurdodau lleol yn defnyddio nifer o ddulliau i fonitro a gwerthuso er mwyn cael darlun mor llawn â phosibl o effeithiolrwydd eu hyfforddiant.

11.11 Mae monitro ac, yn arbennig, gwerthuso effaith hyfforddiant ar waith corff llywodraethu yn anodd iawn, ond oni bai yr ymgymerir ag ef, mae'n amhosibl amcangyfrif gwerth yr hyfforddaint a ddarperir. Er bod yna le i ddulliau anffurfiol o werthuso effaith, mae dulliau o'r fath yn gyfyngedig. O ganlyniad, er mwyn ychwanegu at ddulliau anffurfiol o'r fath, argymhellir bod awdurdodau lleol yn datblygu o leiaf un math ffurfiol o fonitro a gwerthuso effaith hyfforddaint ar waith cyrff llywodraethu.

ATODIAD 1

Holiadur

HYFFORDDIANT AALl AR GYFER LLYWODRAETHWYR YSGOL

YR AALl

Enw'r Awdurdod Addysg Lleol .....

1 Faint o ysgolion Cynradd ac Uwchradd sydd yn eich AALl?

Cynradd ..... Uwchradd .....

2 Beth yw cyfanswm y llywodraethwyr mewn swydd yn eich awdurdod lleol ym mis Gorffennaf 2008 mewn

Cynradd ..... Uwchradd .....

3 Sawl aelod o staff sydd yn Uned Cefnogi Llywodraethwyr eich AALl?

Llawn amser ..... Rhan-amser .....

4 Sawl aelod o Uned Cefnogi Llywodraethwyr eich AALl:

(a) Sydd heb unrhyw gyfrifoldebau eraill .....

(b) Sydd â chyfrifoldebau eraill ond eu prif gyfrifoldeb yw cefnogaeth llywodraethwyr .....

(c) Sydd â pheth cyfrifoldeb am gefnogaeth llywodraethwyr ond mae eu prif gyfrifoldeb yn rhywle arall .....

5 Pa ganran o amser eich Uned Cefnogi Llywodraethwyr a neilltuir ar gyfer hyfforddiant? (Dylai hyn gynnwys trefnu sesiynau unigol, mynychu sesiynau, cymryd sesiynau, dadansoddi data, ayb. Peidiwch â chynnwys hyfforddiant "anffurfiol" megis cynghori cyrff llywodraethol neu lywodraethwyr unigol ynghylch materion cyfreithiol neu drefniadol.)

Dros 80%	❑	40-49%	❑
70-79%	❑	30-39%	❑
60-69%	❑	20-29%	❑
50-59%	❑	Llai na 20%	❑

CYNNWYS YR HYFFORDDIANT

6 Yn y ddwy flynedd academaidd diwethaf pa destunau a ydych wedi'u cwmpasu mewn hyfforddiant llywodraethwyr? (Er y gallech fod wedi cyflwyno testun megis "cynllunio strategol" mewn sesiwn sefydlu ar gyfer llywodraethwyr newydd, peidiwch â chyfrif y cyfryw destun oni bai eich bod yn ei gynnig fel sesiwn hyfforddi ar wahân hefyd.)

	Y Ddwy Flynedd	Un Flwyddyn yn Unig
Hyfforddiant Cadeiryddion	❑	❑
Hyfforddiant Clercod	❑	❑
Sefydlu llywodraethwyr newydd	❑	❑
Materion Anghenion Addysgol Arbennig	❑	❑
Bwlio	❑	❑
Diogelu Plant	❑	❑
Materion Cwricwlwm, e.e. Cyfnod Sylfaen, llwybrau 14-19	❑	❑
Monitro Cyllid/ Cyllideb	❑	❑
Trin cwynion	❑	❑
Materion Iechyd a Diogelwch	❑	❑
Cyfweld ac Apwyntiadau	❑	❑
Monitro a Gwerthuso	❑	❑
Rheoli Perfformiad	❑	❑
Disgyblu Disgyblion	❑	❑
Disgyblu Staff	❑	❑
Cynllunio Strategol	❑	❑
Gosod Targedau	❑	❑
Hyfforddiant ar gyfer Disgybl-Lywodraethwyr Cyswllt	❑	❑
Trosglwyddo rhwng Cyfnodau Allweddol	❑	❑
Deall data	❑	❑
Gweithio gyda rhieni	❑	❑

Materion cyfreithiol cyffredin ----------

Testunau eraill (rhowch fanylion) ----------

PRESENOLDEB

7 Gan fod mwy o lywodraethwyr ysgol Gynradd nag ysgol Uwchradd yng Nghymru, mae'n debygol y bydd presenoldeb llywodraethwyr ysgol Gynradd yn uwch mewn sesiynau hyfforddi. Gan gadw hyn mewn golwg, dros y ddwy flynedd diwethaf

a) Mae'r presenoldeb cyffredinol mewn sesiynau hyfforddi yn uwch ymhlith llywodraethwyr Cynradd (fel y gellid disgwyl gan fod mwy o lywodraethwyr ysgol Gynradd nag ysgol Uwchradd). ❑

b) Mae'r presenoldeb cyffredinol mewn sesiynau hyfforddi fwy neu lai yn gyfartal rhwng llywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd. ❑

c) Mae'r presenoldeb cyffredinol mewn sesiynau hyfforddi yn uwch ymhlith llywodraethwyr Uwchradd. ❑

8 A oedd unrhyw sesiynau hyfforddi nad oeddynt yn cydymffurfio â'r norm, gyda phresenoldeb da iawn (byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi'r niferoedd o lywodraethwyr a fu'n bresennol)

a) Llywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd (nodwch bwnc y sesiynau hyfforddi) .....

.....

b) Llywodraethwyr ysgol Gynradd yn unig (nodwch bwnc y sesiynau hyfforddi) .....

.....

c) Llywodraethwyr ysgol Uwchradd yn unig (nodwch bwnc y sesiynau hyfforddi) .....

.....

9 Yn eich tyb chi, pam oedd y presenoldeb gystal yn y sesiynau hyn, ac os oedd gwahaniaeth rhwng presenoldeb y llywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd, beth oedd y rhesymau am hynny?

.....

.....

.....

10 A oedd unrhyw sesiynau hyfforddi nad oeddynt yn cydymffurfio â'r norm, gyda phresenoldeb gwael gan (byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi'r niferoedd o lywodraethwyr a fu'n bresennol)

a) Y Llywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd (rhowch fanylion) .....

.....

b) Llywodraethwyr ysgol Gynradd yn unig (rhowch fanylion) .....

.....

c) Llywodraethwyr ysgol Uwchradd yn unig (rhowch fanylion) .....

.....

PRESENOLDEB (Parhad)

11 Yn eich tyb chi, pam oedd y presenoldeb yn y sesiynau hyn mor wael, ac os oedd gwahaniaeth rhwng presenoldeb y llywodraethwyr Cynradd ac Uwchradd, beth oedd y rhesymau am hynny?

---

12 A gafodd yr holl gyrff llywodraethu ysgol yn eich awdurdod lleol chi yr un gynrychiolaeth yn y rhan fwyaf o'r sesiynau hyfforddi llywodraethwyr dros y ddwy flynedd diwethaf?

DO ❑

NADDO ❑

13 Os mai NADDO oedd yr ateb i'r cwestiwn uchod, pam dybiwch chi mai felly y bu?

---

14 Pa ddulliau neu strategaethau yr ydych wedi eu mabwysiadu i annog llywodraethwyr i fynychu sesiynau hyfforddi, e.e. cyswllt personol, tystysgrif presenoldeb

---

---

15 Fel rheol, a fynychir y sesiynau hyfforddi llywodraethwyr a drefnwch ar gyfer yr holl lywodraethwyr (h.y. nid sesiynau ar gyfer rhai mathau arbennig o lywodraethwyr megis Cadeiryddion, llywodraethwyr newydd, llywodraethwyr Anghenion Arbennig, ayb.) gan amrediad teg o lywodraethwyr (h.y. llywodraethwyr newydd a'r rhai sydd wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddi ynghynt) neu gan lywodraethwyr unigol sydd yn bresennol yn rheolaidd yn y rhan fwyaf o'r sesiynau hyfforddi ("y rhai arferol")?

Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau hyfforddi dros y ddwy flynedd diwethaf.

a) Gwelwyd amrediad tebyg o lywodraethwyr a dim "rhai arferol". ❑

b) Fel rheol mae'r amrediad wedi bod yn eithaf tebyg, h.y. cydbwysedd rhwng llywodraethwyr a nifer o "rai arferol" ❑

c) Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau hyfforddi gwelwyd ychydig yn fwy o'r "rhai arferol" nag o lywodraethwyr eraill. ❑

d) Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau hyfforddi gwelwyd llawer mwy o'r "rhai arferol" nag o lywodraethwyr eraill ❑

16 Yn gyffredinol, pa ganran o gyrff llywodraethu ysgol a gynrychiolwyd yn y rhan fwyaf o'ch cyrsiau dros y ddwy flynedd diwethaf?

(a) Dros 70% ❑

(b) 55% - 69% ❑

(c) 45% - 54% ❑

(ch) 30% - 44% ❑

(d) 15% - 29% ❑

(dd) Llai na 15% ❑

PRESENOLDEB (Parhad)

17 Yn y ddwy flynedd diwethaf, pa ganran o'ch cyrsiau bu'n rhaid i chi eu canslo oherwydd diffyg cefnogaeth gan gyrff llywodraethol?

(a) Mwy na 50%	❑	(ch) 10% - 19%	❑
(b) 30% - 49%	❑	(d) 5% - 9%	❑
(c) 20% - 29%	❑	(dd) Llai na 5%	❑

CYDWEITHREDIAD

18 Yn y ddwy flynedd diwethaf, a ydych wedi cydweithredu ynghylch darparu hyfforddiant llywodraethwyr gydag awdurdodau lleol eraill?

Nid ydym wedi cydweithredu mewn unrhyw ffordd gydag awdurdodau lleol eraill ynghylch darparu hyfforddiant llywodraethwyr. ❑
(Os ticiwch y blwch hwn, ewch i'r adran nesaf, "LLEOLIAD".)

Rydym wedi cydweithredu gydag un awdurdod lleol arall ynghylch darparu hyfforddiant llywodraethwyr ❑

Rydym wedi cydweithredu gyda mwy nag un awdurdod lleol arall ynghylch darparu hyfforddiant llywodraethwyr ❑

Os rhoddoch dic yn y trydydd blwch (uchod) nodwch sawl awdurdod lleol fuoch chi'n cydweithredu â nhw ----------

19 Os buoch yn cydweithredu gydag un awdurdod lleol neu fwy, ar ba ffurf oedd y cydweithrediad hwn?

Buom yn darparu sesiynau hyfforddi ar y cyd yn rheolaidd (mwy na 25% o'n holl gyrsiau) ❑

Buom yn darparu sesiynau hyfforddi ar y cyd yn achlysurol (llai na 25% o'n holl gyrsiau) ❑

Buom yn cynnal cynadleddau llywodraethwyr ar y cyd ❑

Eraill (Gallai hyn gynnwys cylchlythyrau llywodraethwyr awdurdod lleol ar y cyd, trafodaeth o ddulliau hyfforddi llywodraethwyr gyda Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr awdurdodau lleol eraill, ayb. Rhowch fanylion.)

---

20 Os buoch yn cydweithredu gydag un awdurdod lleol arall neu fwy wrth ddarparu sesiynau hyfforddi, rhestrwch y testunau a gwmpasoch ----------

---

---

21 Os cynhalioch chi sesiwn (sesiynau) gydag un awdurdod lleol arall neu fwy, a oedd y presenoldeb gan lywodraethwyr o'r gwahanol awdurdodau yn debyg?

Presenoldeb tebyg fwy neu lai ❑

Roedd mwy o lywodraethwyr yn bresennol o'r awdurdod lle cafodd yr hyfforddiant ei leoli ❑

LLEOLIAD

22 Fel rheol a ydych chi'n cynnal eich cyrsiau hyfforddi (ticiwch un)

(a) Mewn un lleoliad canolog ❑

(b) Mewn nifer o leoliadau ❑

23 A ydych yn darparu hyfforddiant corff llywodraethol cyfan? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

Os darperir hyfforddiant corff llywodraethol cyfan gan yr AALl: (ticiwch un)

(a) dewisir y testunau oddi ar restr a ddarparwyd gan yr AALl ❑

(b) caiff y cyrff llywodraethol ryddid hollol wrth ddewis testun ❑

(c) cyfuniad o (a) a (b) ❑

24 A ydych wedi monitro hyfforddiant corff llywodraethol cyfan am bresenoldeb ac effeithiolrwydd? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

Os YDYM, a gafodd ei dderbyn yn fwy ffafriol gan lywodraethwyr na'r math traddodiadol o hyfforddi (h.y. hyfforddiant sy'n agored i bob llywodraethwr yn yr awdurdod)? **DO** ❑ **NADDO** ❑

25 A ydych yn darparu hyfforddiant ar gyfer clystyrau o gyrff llywodraethol? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

Os YDYM, a ydych yn darparu hyfforddiant clwstwr ar gyfer

Llywodraethwyr Ysgol Gynradd ❑ Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd ❑

Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd a Llywodraethwyr eu Hysgolion Cynradd "bwydo" ❑

26 Os darperir hyfforddiant ar gyfer clystyrau o gyrff llywodraethol gan yr awdurdod lleol: (ticiwch un)

(a) dewisir y testunau oddi ar restr a ddarparwyd gan yr AALl ❑

(b) caiff y cyrff llywodraethol ryddid hollol wrth ddewis testun ❑

(c) cyfuniad o (a) a (b) ❑

27 A ydych wedi monitro hyfforddiant clwstwr ar gyfer cyrff llywodraethol am bresenoldeb ac effeithiolrwydd? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

28 Os YDYM, a gafodd ei dderbyn yn fwy ffafriol gan lywodraethwyr na'r math traddodiadol o hyfforddi llywodraethwyr (h.y. hyfforddiant sy'n agored i bob llywodraethwr yn yr awdurdod)? **DO** ❑ **NADDO** ❑

29 A ydych yn darparu cyrsiau dysgu o bell o unrhyw fath ar gyfer llywodraethwyr **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

30 Os ateboch YDYM i gwestiwn 29 nodwch y mathau o ddysgu o bell a ddefnyddiwyd gennych.

AMSERIAD A HYD

31 A ydych yn cynnal cyrsiau hyfforddi llywodraethwyr ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

32 Os ateboch YDYM i 31, a welsoch chi wahaniaeth mawr yn y presenoldeb ar gyrsiau ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos? **DO** ❑ **NADDO** ❑

33 Os ateboch DO i 32, nodwch y diwrnod(au) mwyaf poblogaidd

34 Yn eich tyb chi, a oes cysylltiad rhwng poblogrwydd ymddangosiadol y diwrnod(au) a phwnc y sesiwn hyfforddi? **OES** ❑ **NAC OES** ❑

35 A ydych yn cynnal cyrsiau ar wahanol amserau o'r diwrnod? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

36 Os ateboch YDYM i 35, a welsoch chi wahaniaeth mawr yn y presenoldeb ar gyrsiau ar wahanol amserau o'r diwrnod? **DO** ❑ **NADDO** ❑

37 Os ateboch DO i 36, nodwch yr amser mwyaf poblogaidd o'r diwrnod

38 Yn eich barn broffesiynol, a oes cysylltiad rhwng poblogrwydd ymddangosiadol yr amserau a phwnc y sesiwn hyfforddi? **OES** ❑ **NAC OES** ❑

39 Pa mor hir mae'r rhan fwyaf o'ch cyrsiau un sesiwn yn para? (ticiwch un)

a) Llai nag 1 awr ❑

b) 1 – 2 awr ❑

c) 2 – 3 awr ❑

d) 3 – 4 awr ❑

e) Mwy na 4 awr ❑

40 A yw eich AALl yn trefnu cynhadledd flynyddol ar gyfer llywodraethwyr? **YDYW** ❑ **NAC YDYW** ❑

41 Os ateboch YDYW i gwestiwn 40, ers faint o flynyddoedd rydych wedi bod yn darparu'r gwasanaeth hwn?

(a) Hon yw ein blwyddyn gyntaf ❑

(b) 1 flwyddyn ❑

(c) 2 flynedd ❑

(ch) 3 blynedd ❑

(d) 4 blynedd ❑

(dd) Mwy na 4 blynedd ❑

HYFFORDDWYR

42 Pwy sy'n cyflwyno'r hyfforddiant a ddarperwch?

	Bob tro	Fel arfer	Weithiau	Yn achlysurol	Byth
Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr	❑	❑	❑	❑	❑
Swyddogion Llywodraeth Leol gyda swyddogaeth benodol, e.e. Cyllid, Iechyd a Diogelwch.	❑	❑	❑	❑	❑
Athrawon o fewn eich AALl	❑	❑	❑	❑	❑
Athrawon o AALl arall	❑	❑	❑	❑	❑
Ymgynghorwyr addysgol o'r tu allan	❑	❑	❑	❑	❑
Eraill (rhowch fanylion) ----------	❑	❑	❑	❑	❑
----------	❑	❑	❑	❑	❑

43 A ydych yn darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion sydd ar fin cael eu harolygu? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

44 Os ateboch chi YDYM i gwestiwn 43, pa swyddogion sy'n darparu'r hyfforddiant a pha ardaloedd a gwmpasir?

LLYWODRAETHWYR CYSWLLT

45 A oes gan yr ysgolion yn eich AALl lywodraethwyr "cyswllt" ar gyfer hyfforddiant? **OES** ❑ **NAC OES** ❑

Os OES

(a) A oes ganddynt ganllawiau neu ddisgrifiadau rôl ar gyfer y swydd hon? **OES** ❑ **NAC OES** ❑

(b) A ydynt yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd gyda Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr er mwyn:

- Trafod adborth ar ôl cyrsiau hyfforddi **YDYNT** ❑ **NAC YDYNT** ❑
- Cynllunio rhaglenni hyfforddi am y dyfodol **YDYNT** ❑ **NAC YDYNT** ❑

Testunau eraill (rhowch fanylion) ----------

46 A yw "hyfforddi llywodraethwyr" yn eitem a gynhwysir yn rheolaidd ar agendâu cyfarfodydd cyrff llywodraethol gan yr AALl? **YDYW** ❑ **NAC YDYW** ❑

MONITRO A GWERTHUSO

47 Sut ydych yn monitro ansawdd eich hyfforddiant? (ticiwch un neu fwy fel y bo'n briodol)

a) Ffurflen werthuso cynadleddwyr ❑

b) Holi cynadleddwyr unigol ❑

c) Arolygon o gyrff llywodraethol ar draws yr AALl ❑

d) Adborth gan lywodraethwyr cyswllt ❑

e) Defnyddio polwyr barn proffesiynol ❑

f) Eraill (rhowch fanylion) ❑ .....

.....

48 O ganlyniad i werthuso casgliadau'r ymarferion monitro, a ydych wedi addasu neu newid eich rhaglen hyfforddi? **YDYM** ❑ **NAC YDYM** ❑

49 Os ateboch YDYM i gwestiwn 48, nodwch y newidiadau .....

.....

.....

50 Yn gyffredinol, a fu'r adborth o'r rhan fwyaf o'ch cyrsiau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn

(a) Dda iawn ❑ (ch) Teg ❑

(b) Da ❑ (d) Gwael ❑

(c) Eithaf da ❑ (dd) Gwael iawn ❑

51 Os oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn rhwng categorïau (ch) ac (dd) pa strategaethau ydych chi'n eu mabwysiadu i wella'r sefyllfa hon?

.....

.....

At ddibenion y cwestiwn canlynol, diffinnir "effaith" hyfforddiant fel "*sut ac i ba raddau mae sesiwn hyfforddi arbennig neu raglen o sesiynau wedi gwella effeithiolrwydd y llywodraethwr a fynychodd yr hyfforddiant ac, yn y pen draw, ei gorff/chorff llywodraethol*."

52 A oes gennych ddull(iau) ffurfiol o fonitro effaith hyfforddiant ar waith cyrff llywodraethol yn eich awdurdod lleol? **OES** ❑ **NAC OES** ❑

53 Os ateboch OES, nodwch y dulliau ffurfiol a ddefnyddiwyd.

.....

.....

.....

.....

MONITRO A GWERTHUSO (Parhad)

54 A oes gennych ddull(iau) anffurfiol o fonitro effaith hyfforddiant ar waith cyrff llywodraethol yn eich awdurdod lleol? e.e. siarad â llywodraethwyr neu benaethiaid ysgol, arsylwi ar gyrff llywodraethol wrth eu gwaith.

OES ❑

NAC OES ❑

55 Os ateboch OES, nodwch y dulliau anffurfiol a ddefnyddiwyd.

CYFFREDINOL

56 A oes unrhyw agweddau o hyfforddi llywodraethwyr yr hoffech roi sylwadau amdanynt? Byddwn yn croesawu yn arbennig unrhyw awgrymiadau am welliannau y teimlwch y gellid eu gwneud.

Diolch am eich cymorth wrth gwblhau'r holiadur hwn.

Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau yn yr amlen stampiedig ac arni eich cyfeiriad erbyn **22 Gorffennaf 2008** at:

Steve Gullick, Cyfarwyddwr y Prosiect
Canolfan Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil
Ysgol Addysg Abertawe,
Prifysgol Fetropolitan Abertawe, Ffordd Townhill, Abertawe, SA2 0UT

Ffôn: 01792 482065 E-bost: steve.gullick@smu.ac.uk

Ffacs: 01792 482076